



Plaid
plaidcymru.org

Camu 'mlaen 2011

Cynhadledd Adfywio'r Plaid i Gymru

Moving Forward 2011


Renewing Plaid for Wales Conference

Dy gynhadledd di! Cyfrannwch ar PlaidByw.com
Your Conference! Contribute @ PlaidLive.com

Venue Cymru, Llandudno



Sgania'r QR yma gyda dy ffôn clyfar!
Scan this QR code with your smartphone!
www.plaidcymru.org/QR




75 mlynedd ar ôl llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth ar 8 Medi 1936 fe lansir llyfr newydd gan Arwel Vittle, 'Cythral o Dân'.

Mewn cyfrol afaelgar yn llawn lluniau cofiadwy, adroddir am ddigwyddiadau cyffrous a chynnwrf y cyfnod.

**Lansir y gyfrol am
12.30 yn ystafell
Rhuddlan ar ddydd
Sadwrn y Gynhadledd.
Croeso i bawb.**

Hefyd yn newydd
o'r Lolfa:



www.ylolfa.com

01970 832304 ylolfa@ylolfa.com

ylolfa

CYFREITHWYR RICHARDS THOMAS SOLICITORS

www.richardsthomas.co.uk

Gwasanaeth effeithiol, cyfeillgar a dwyieithog a'r gyfer eich holl anghenion cyfreithiol.
A friendly, efficient and bilingual service for all your legal needs.

Ein swyddfeydd / Our offices

Glynrhedynog • Ferndale

14, The Strand, Ferndale, CF43 4LY
01443 757738 Ffacs/Fax: 01443 755581

Aberpennar • Mountain Ash

6 Oxford Street, Mountain Ash, CF45 3PG
01443 473236 Ffacs/Fax: 01443 474845

Aberhonddu • Brecon

2 The Struet, Brecon, Powys, LD3 7LH
01874 623371 Ffacs/Fax: 01874 622261

Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011

Plaid Cymru Annual Conference 2011

Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd	02
Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol	04
Canllawiau i'r Gynhadledd	08
Amserlen y Gynhadledd (dydd Iau)	10
Amserlen y Gynhadledd (dydd Gwener)	12
Amserlen y Gynhadledd (dydd Sadwrn)	14
Cofnodion Cynhadledd Flynyddol 2010	16
Amserlen llawn a chynigion y Gynhadledd	18

Content

Message from the Chair	03
National Executive Committee	04
Conference Guide	09
Conference Timetable (Thursday)	11
Conference Timetable (Friday)	13
Conference Timetable (Saturday)	15
2010 Annual Conference Minutes	17
Full timetable and Conference motions	19

Adroddiad y Cadeirydd

Bu'r flwyddyn ers i mi orfod camu i'r Gadair ym mis Gorffennaf 2010 yn flwyddyn o wrthgyferbyniadau. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch yn gynnes i John Dixon am ei wasanaeth i'r Blaid mewn sawl rôl dros nifer o flynyddoedd a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Diolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth wrth gymryd at yr awenau.

Bellach mi wyddwn mai hon fydd Cynhadledd Flynyddol olaf Ieuan Wyn Jones fel Arweinydd y Blaid. Llwyddodd i goroni ei gyfnod fel Arweinydd a Dirprwy Prif Weinidog trwy lwyddo i sicrhau y cynhelid y Refferendwm ar ddatganoli pwerau deddfu i Gymru, un o addewidion Cymru'n Un, cyn Etholiad Cenedlaethol Cymru 2011, er waetha pwysau o du ein partneriaid yn y Glymblaid i'w ohirio. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith na ddylai'r Blaid arwain ymgyrch y Refferendwm ond, yn hytrach, sicrhau bod ein aelodau yn ymgyrchu'n frwd led led Cymru ochr yn ochr a chyfeillion o bob plaid ac o 'run. O ganlyniad gwelwyd llwyddiant ysgubol ar Fawrth 3.

Bu'n rhaid bwrw iddi'n syth i ymgyrchu yn Etholiad Cenedlaethol Cymru ac er i bawb, yn ymgeiswyr a chefnogwyr, weithio'n galed yn canfasio ac yn dosbarthu, mae'n amlwg na lwyddodd ein neges i ddenu digon o gefnogaeth mewn rhai seddi allweddol. Collwyd hoelion wyth yn y frwydr – Helen Mary Jones, Nerys Evans, Dai Lloyd a Chris Franks. Diolch i'r pedwar ohonynt am eu gwaith diflino. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dlotach heb eu cyfraniadau gwerthfawr.

Llongyfarchiadau mawr i'n haelodau newydd Llyr Huws Gruffydd, Simon Thomas a Lindsay Whittle a diolch hefyd a dymuniadau gorau i Gareth Jones a Janet Ryder ar eu hymddeoliad.

Yn anorod, bu'n rhaid adolygu beth aeth o'i le. Penodwyd Chris Franks i arwain adolygiad o'r etholiad. Ond roedd teimlad bod angen adolygiad llawnach o holl waith a strwythurau'r Blaid yn ogystal. Derbyniodd Eurfyl ap Gwilym y gwahoddiad i'w arwain a disgwylir ei adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn.

Ond hoffwn ddiolch o galon i Gwenllian Lansdown fel Prif Weithredwr am ei chyfraniad arbennig i'r Blaid a dymuno'n dda iddi yn ei bywyd priodasol newydd ym Maldwyn. Yna, ym mis Mehefin, roeddwn yn hynod o falch i gyhoeddi bod Rhuanedd Richards wedi'i phenodi i'r swydd bwysig hon. Erbyn i chi ddarllen hyn, bydd hi wedi cychwyn ar y gwaith ers dechrau Medi. Hoffwn dalu teyrnged i'r holl staff am eu gwaith a'u teyrngarwch i'r Blaid dros y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig i Geraint Day am weithredu fel Prif Weithredwr dros dro. Bu'n bleser cyd-weithio gyda nhw i gyd.

Diolch arbennig hefyd i chithau i gyd yn aelodau, swyddogion a chefnogwyr. Llanw a thrai yw hanes pob plaid wleidyddol. Gallwn weld Cynhadledd 2011 fel trobynt a gyda'ch cefnogaeth chi, camu ymlaen yn frwdfrydig i gyfnod newydd.

Ellen ap Gwynn

Chair's Report

The year since I stepped into the Chair in July 2010 has been a year of contrasts. I would like to begin by thanking John Dixon warmly for his service to Plaid in several roles over many years, and to wish him well for the future. Thanks also to everyone for their support when I took over.

We now know that this will be Ieuan Wyn Jones' last Annual Conference as Plaid Leader. His crowning achievement as Leader and Deputy Prime Minister was his success in ensuring that the referendum on the devolution of legislative powers to Wales, one of the One Wales pledges, would be held before the 2011 Welsh General Election, despite pressures from our Coalition partners to defer it. The National Executive Committee decided that the referendum should not be Plaid-led but that we should ensure that all our members campaigned vigorously across Wales and with colleagues from all parties and from none. The result was a sweeping success on March 3rd.

We then had to campaign immediately in the Welsh General Election and although everyone, candidates and supporters alike, worked hard at canvassing and distribution, our message obviously did not attract enough support in some key seats. In the campaign we lost some of our mainstays – Helen Mary Jones, Nerys Evans, Dai Lloyd and Chris Franks. I would like to thank the four of them for their untiring work. The National Assembly is the poorer without their valuable contributions.

Heartly congratulations also to our new members Llyr Huws Gruffydd, Simon Thomas and Lindsay Whittle and thanks also and best wishes to Gareth Jones and Janet Ryder on their retirement.

Inevitably, we had to review what went wrong. Chris Franks was appointed to lead the review of the election. But there was a feeling also that we needed a fuller review of all Plaid's work and structures. Eurfyl ap Gwilym accepted the invitation to lead this, and we expect his report by the end of the year.

I would like to thank Gwenllian Lansdown most sincerely for her particular contribution to Plaid, and to wish her well in her married life in Maldwyn. Then, in June, I was very pleased to announce the appointment of Rhuanedd Richards to this important post. By the time you read this, she will have been in post since the beginning of September. I would like to pay tribute to all the staff for their work and their loyalty to Plaid over the last year, particularly to Geraint Day for being acting Chief Executive. It has been a pleasure to work with them all.

Particular thanks to you all as members, officials and supporters. The history of all political parties is one of ebb and flow. We can see the 2011 Conference as a turning point, and with your support, we can step forward enthusiastically to a new period.

Ellen ap Gwynn

Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol/ National Executive Committee

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol / Plaid Cymru Group Leader in the National Assembly

Ieuan Wyn Jones AC / AM - ieuan.wynjones@wales.gov.uk • www.ieuanwynjones.org

Llywydd / President

Jill Evans ASE / MEP - jill.evans@europarl.europa.eu • www.jillevans.net

Is Lywydd / Vice President

Chris Franks - familyfranks@btinternet.com

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru yn San Steffan/ Plaid Cymru Group Leader in Westminster

Elfyn Llwyd AS / MP - llwyde@parliament.uk

Cynrychiolydd Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol/ Plaid Cymru National Assembly Group Representative

Lindsay Whittle AC/AM - lindsay.whittle@wales.gov.uk

Cadeirydd / Chair - I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Ellen ap Gwynn neu/or Helen Mary Jones

Trysorydd / Treasurer

Dafydd Trystan - dafyddtrystan@yahoo.co.uk

Cadeirydd y Pwyllgor Llywio / Chair of Steering Committee

Ellen ap Gwynn - Ellen.apGwynn@tiscali.co.uk

Cyfarwyddydd Cyfathrebu / Director of Communications I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Elin Jones neu/or Ail-agor enwebiadau / Re-open nominations

Cyfarwyddydd Cyllid / Director of Finance I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Richard Grigg neu/or Ail-agor enwebiadau / Re-open nominations

Cyfarwyddydd Etholiadau / Director of Elections I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Ian Titherington neu/or Ail-agor enwebiadau / Re-open nominations

Cyfarwyddydd Polisi ac Addysg Wleidyddol/ Director of Policy and Political Education I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Nerys Evans neu/or Ail-agor enwebiadau / Re-open nominations

Cyfarwyddydd Trefniadaeth, Datblygu ac Hyfforddiant / Director of Organisation, Development and Training I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Myfanwy Davies / Glyn Erasmus / Heledd Fychan neu/or Ail-agor enwebiadau /
Re-open nominations

Cymru X

Lleu Williams - lleuwilliams@gmail.com

Cymdeithas y Cynghorwyr / Councillors' Association

Phil Bevan - bevanpj@caerphilly.gov.uk

Adran y Menywod / Women's Section

Lisa Ford - lisaford@cardiff.gov.uk

UNDEB

Alun Cox - aluncox@hotmail.co.uk

CYDLYNYDDION RHANBARTHOL / REGIONAL CO-ORDINATORS

Môn & Caernarfon I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Dyfed Wyn Roberts neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Conwy, Gornllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd / Conwy, Clwyd West and Vale of Clwyd I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Arwel Roberts neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Delyn, Wrecsam, Alun & Dyfrdwy a De Clwyd / Delyn, Wrexham, Alyn & Deeside and Clwyd South I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Arfon Jones neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Powys - I'W ETHOL/TO BE ELECTED

David Senior neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Ceredigion & Dwyfor Meirionnydd

Mabon ap Gwynfor - pasg1916@hotmail.com

Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin / Pembrokeshire and Carmarthenshire I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Dewi Evans / Elwyn Williams neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Gwrw ac Abertawe / Gower and Swansea I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Carl Harris neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Nedd, Aberafan, Ogwr a Phenybont / Neath, Aberavon, Ogmore and Bridgend - I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Dim enwebiadau wedi'u derbyn, unrhyw fanylion pellach i'w gylchredeg yn y
Gynhadledd / No nominations received, any further details to be circulated at
Conference

Rhondda, Cynon a Phontypridd / Rhondda, Cynon and Pontypridd

Leanne Wood - Leanne.Wood@wales.gov.uk

Caerdydd a Bro Morgannwg / Cardiff and the Vale of Glamorgan

Chris Franks - familyfranks@btinternet.com

Merthyr Tudful, Rhymni, Caerffili, Islwyn & Blaenau Gwent I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Steffan Lewis neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Mynwy, Casnewydd a Thorfaen / Monmouthshire, Newport and Torfaen I'W ETHOL/TO BE ELECTED

Janet Davies neu Ail-agor enwebiadau/or Re-open Nominations

Pwyllgor Llywio'r Gynhadledd/ Conference Steering Committee

- Cadeirydd / Chair -Ellen ap Gwynn - Ellen.apGwynn@tiscali.co.uk
- Cynrychiolyddion y Pwyllgor Gwaith / NEC Representatives
Alun Cox - aluncox@hotmail.co.uk
Glyn Erasmus - glyn.erasmus@gmail.com
(Dewisir cynrychiolyddion yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Hydref / Representatives are chosen in the AGM in October)
- Nerys Evans evansnerys@hotmail.com
- Etholwyd yng Nghynhadledd 2010 / Elected at 2010 Conference
Michael Peterson
Colin Nosworthy
- **I'W HETHOL YNG NGHYNHADLEDD 2011/TO BE ELECTED AT 2011 CONFERENCE**
Myfanwy Davies / Carl Harris / Gwynfor Owen neu/or Ail-agor enwebiadau / Re- open Nominations (mae cyfanswm o ddau le gwag i'w hethol yng Nghynhadledd 2011 / there is a total of two vacant positions to elect at the 2011 Conference)



Rathbone Cymru is one of the largest voluntary organisations in Wales supporting young people between the ages of 11-25 who are or at risk of becoming not in education, employment or training (NEET). Every year we support 2700 young people to overcome barriers to education, employment or training. We offer support to re-engage young people with learning and getting them on the right track. Our belief is that everyone, whatever their starting point, can achieve and that every young person has the ability to learn and to progress.

Rathbone Cymru offers support via:

- Preparation for life and work
- Support to enter the workplace
- Youth Engagement
- Support for those facing difficulties in mainstream education

Plaid Cymru AMs, MPs and Councillors are invited to visit a Rathbone Cymru project in their local area by contacting Ian Whitehead-Ross on 07734 333236 or ian.whitehead-ross@rathboneuk.org


Rathbone Cymru yw un o'r mudiadau gwirfoddol mwyaf yng Nghymru sy'n cefnogi pobl ifainc rhwng 11-25 mlwydd oed sydd, neu sydd mewn perygl o fod, yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Bob blwyddyn byddwn yn cefnogi 2,700 o bobl ifainc i oresgyn rhwystrau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym yn cynnig cefnogaeth i ail-ymgysylltu pobl ifainc â dysg a'u cael ar y trywydd cywir. Ein cred yw y gall pawb gyflawni, waeth ble fo'u man cychwyn, a bod gan bob person ifanc y gallu i ddsygu a sicrhau cynnydd.

Bydd Rathbone Cymru'n cynnig cefnogaeth trwy:

- Baratoi ar gyfer bywyd a gwaith
- Cefnogaeth i ymuno â'r gweithle
- Ymgysylltu â leuencid
- Cefnogaeth i rai sy'n wynebu anawsterau mewn addysg prif ffrwd

Gwahoddir Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a Chynghorwyr Plaid Cymru i ymweld â phrosiectau Rathbone Cymru yn eu hardal leol trwy gysylltu â Ian Whitehead-Ross ar 07734 333236 neu trwy ian.whitehead-ross@rathboneuk.org

Come along to our fringe event – **"Cooking up Innovation"**
Date: Friday 9th September 2011, Time: 12:30 – 1:30pm
Venue: Conwy Room (1st floor), Venue Cymru
Buffet lunch provided





Cymdeithas Cynghorwyr Councillors Association

www.councillor.plaidcymru.org

Byddwn yn canolbwyntio ar etholiadau 2012

- ▶ Syniadau ymgyrchu
- ▶ Cyngor ar strategaeth cofrestru Pleidleisiau Post
- ▶ Ymgyrch Cael y Bleidlais Allan
- ▶ Cynhyrchu taflenni

We will be focusing on the 2012 council elections

- ▶ Campaigning tips
- ▶ Get out the vote campaign
- ▶ Leaflet production
- ▶ Postal Voters registration strategy advice

Contact / Cyswllt:
Chris Franks - familyfranks@btinternet.com - Mob 07725497423

Canllawiau i'r Gynhadledd 2011

Lleoliad: Venue Cymru, Llandudno (01492) 879 771 • www.venuecymru.co.uk

Trafnidiaeth: Mae maes parcio talu ac arddangos 24 awr y tu ôl i'r Ganolfan Gynadledda. Mae gorsaf dren Llandudno tua 10 munud ar droed o'r Ganolfan Gynadledda.

Cofrestru: Mae cofrestru am ddim i gynrychiolwyr o ganghennau ac etholaethau sydd wedi talu'r Tâl Cofrestru Blynyddol ar gyfer 2011. Os nad ydych yn siwr os yw'ch cangen neu etholaeth wedi cofrestru cysylltwch â'r Swyddfa Genedlaethol. Y gost i gofrestru ar gyfer cynrychiolwyr o ganghennau ac etholaethau sydd heb dalu'r Tâl Cofrestru Blynyddol yw £30 yr un. Fe ddylai cynrychiolwyr fynd i'r Ddesg Gofrestru wrth gyrraedd y Gynhadledd i gasglu eu cerdyn pleidleisio. Os nad ydych yn gynrychiolydd swyddogol fe allwch gofrestru fel sylwebydd.

Digwyddiadau cymdeithasol: Fe fydd Cinio'r Gynhadledd ar y nos Wener yn Venue Cymru. Y siaradwr gwadd fydd Patrick McGuinness sydd wedi cyrraedd rhestr hir y wobwr Man Booker am ffuglen. I brynu tocynnau cysylltwch â Vici Jones - 02920 475921 / vicijones@plaidcymru.org, neu ewch at y ddesg gofrestru yn y Gynhadledd. Cynhelir y Revue ar y nos Sadwrn ac mae digwyddiad Cymru X wedi'i drefnu ar gyfer y nos lau.

Cyfarfodydd mylol a stondinau: Ceisiwch ymweld â phob stondin a mynychu'r cyfarfodydd mylol yn ystod y Gynhadledd, darperir lluniaeth mewn rhai cyfarfodydd. Cofiwch godi copi o Lyfryn Cyfarfodydd Ymylol y Gynhadledd er mwyn sicrhau y cewch y gorau o'r Gynhadledd!

Lluniaeth: Mae nifer o'r cyfarfodydd ymylol yn darparu lluniaeth ond fe fydd lluniaeth ysgafn ar gael i'w brynu yn yr ystafell arddangos ble bydd y stondinau hefyd.

Offer cyfieithu: Darperir clustffonau, ond gan eu bod werth £200 yr un cedwir manylion cerdyn credyd fel mesur diogelwch hyd nes dychwelir y glustffon yn ddiogel. Fe fydd angen dychwelyd y glustffon ar ddiwedd pob dydd i'w ail drydanu.

Siarad: Er mwyn siarad ar lwyfan y Gynhadledd fe fydd angen i chi lenwi cerdyn siaradwr. Mae'r cardiau ar gael gan y stiwardiaid yn neuadd y gynhadledd. Sicrhewch eich bod yn rhoi eich cerdyn wedi'i lenwi i'r stiward mewn da bryd cyn y drafodaeth yr ydych yn dymuno cymryd rhan ynddi. Hysbyswch y stiwardiaid os oes unrhyw anghenion arbennig gennych parthed siarad e.e. os fydd angen cymorth amoch i gyrraedd y llwyfan.

Pleidleisio: Dim ond cynrychiolwyr â chardiau pleidleisio all bleidleisio ar gynigion. Fe nodir manylion y cynigion yn y llawlyfr hwn. I bleidleisio fe fydd angen i chi ddal eich cerdyn yn glir yn yr awyr ar yr amser priodol a nodir gan y Cadeirydd.

Cynrychiolwyr Newydd: Ai dyma eich cynhadledd gyntaf? Gadewch i ni wybod wrth y ddesg gofrestru gan fod gennym dîm o staff penodol i gynorthwyo cynrychiolwyr newydd.

Conference Guide 2011

Location: Venue Cymru, Llandudno (01492) 879 771 www.venuecymru.co.uk

Transport: There is a 24hr Pay and Display car park at the rear of the Conference Centre. Llandudno Train Station is a ten minute walk from the Conference Centre.

Registration: Registration is free for delegates from branches and constituencies who have paid the Annual Registration Fee for 2011. If you're not sure whether your branch or constituency has registered please contact National Office. Registration is £30 each for delegates from branches and constituencies who haven't paid the Annual Registration Fee. All delegates should go to the Registration Desk on arrival at Conference to collect their voting card. If you're not an official delegate you can register as an observer.

Social events: The Conference Dinner will be on Friday evening at Venue Cymru. The guest speaker will be Patrick McGuinness who has made the long list of the Man Booker prize for fiction. To buy tickets please contact Vici Jones - 02920 475921 / vicijones@plaidcymru.org or visit the registration desk at Conference. The Revue is held on Saturday evening and a Cymru X event is arranged for Thursday evening.

Fringe meetings and stands: Please make every effort to visit all stands and attend fringe meetings arranged during conference, refreshments are provided in some meetings. Remember to pick up a copy of your Conference Fringe Meeting Guide to ensure you get the most out of conference!

Refreshments: Many of the fringe meetings provide refreshments but light refreshments can also be purchased in the exhibition room where the stalls are located.

Translation Facilities: Headsets will be provided, however as they cost £200 each credit card details will be retained as security until the headset is returned safely. The headset will need to be returned at the end of each day for recharging.

Speaking: To speak at conference you will need to fill in a speakers' card. The cards are available from stewards inside the conference hall. Please ensure you hand your speakers' card to a steward with plenty of time to spare before the debate you want to participate in. Please inform a steward of any special needs you have in advance e.g. mobility if you intend to speak.

Voting: Only delegates with voting cards will be allowed to vote on motions. The motions are listed in this handbook. To vote you will need to hold your voting card clearly in the air at the time indicated by the Chair.

New Delegates: Are you a first time conference delegate? If you are please identify yourself at the registration desk - there will be dedicated staff members on hand to provide any guidance and information you need.

Amserlen Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2011

DYDD IAU

Amser	Digwyddiad
14.00 – 15.00	Darlith Goffa Gwynfor Evans Sesiwn Sylwebyddion Arbennig
15.15 – 16.15	Etholiadau Llywodraeth Leol 2012 gyda Lindsay Whittle – <i>cynhelir gan Gymdeithas Cynghorwyr Plaid Cymru</i>
16.30 – 18.00	Sesiwn Llawn Cofnodion Cynhadledd Flynyddol 2010 Adroddiadau Mewnol Cynigion (Sesiwn 1) Datganoli Strwythur y Blaid (Mewnol) Enw Plaid Cymru (Mewnol) Yr Economi Nwy Siâl Yr Hawl i Sefyll
17.35	Hustyngau Mewnol – Cydlynnydd Rhanbarthol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Pwyllgor Llywio
18.00 – 19.00	Camu 'Mlaen gyda Dr Eurfyl ap Gwilym*

* Aelodau yn unig

Plaid Cymru Annual Conference Timetable 2011

THURSDAY

Time	Event
14.00 – 15.00	Gwynfor Evans Memorial Lecture Executive Observer Session
15.15 – 16.15	2012 Local Government Elections with Lindsay Whittle – <i>hosted by the Plaid Cymru Councillors' Association</i>
16.30 – 18.00	Plenary Session Minutes of 2010 Conference Internal Reports Motions (Session 1) Devolving the Party Structure (Internal) The Name Plaid Cymru (Internal) The Economy Shale Gas The Right to Stand
17.35	Internal Hustings – Carmarthenshire and Pembrokeshire Regional Co-ordinator, Steering Committee
18.00 – 19.00	Moving Forward with Dr Eurfyl ap Gwilym*

* Members only

DYDD GWENER

09.35	Croeso – Llyr Huws Gruffydd AC
09.50	Cynigion (Sesiwn 2) Darlledu yng Nghymru Cyllido Cymru Trin Gwastraff a Llosgi Gwastraff
10.30	Sesiwn Trafod
11.15	Humza Yousaf ASA, Siaradwr Gwadd SNP
11.30	Cynigion (Sesiwn 3) Arian Polisi Cydlyniant Ewropeaidd Gofal Cymdeithasol Cynllun Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai Cyllido Ôl-Raddedigion
12.15	Cinio a Chyfarfodydd Ymylol
13.30	Cynigion (Sesiwn 4) Libia Tai Fforddiadwy Swdan a De Swdan
14.00	Sesiwn Trafod
14.30	Ieuan Wyn Jones AC, Arweinydd Plaid Cymru - Araith
15.15	Cynigion (Sesiwn 5) Tuag at Fwy o Ryddid Gwybodaeth, Tryloywder ac Atebolrwydd Cynnig Brys 1 Cydraddoldeb Mewn Priodas a Phartneriaeth Sifil
15.40	Cynigion Mewnol a Hustyngau Defnydd yr Iaith Gymraeg Clymblaid Tâl Aelodaeth Canlyniadau'r Etholiad Hustyngau ar gyfer Cadeirydd a Cyfarwyddydd Trefniadaeth
16.30	Cyfarfodydd Ymylol

FRIDAY

09.35	Welcome – Llyr Huws Gruffydd AM
09.50	Motions (Session 2) Broadcasting in Wales Funding Wales Waste Treatment and Waste Incineration
10.30	Discussion Session
11.15	Humza Yousaf MSP, SNP Guest Speaker
11.30	Motions (Session 3) European Cohesion Funding Social Care Housing Revenue Account Subsidy Scheme Postgraduate Funding
12.15	Lunch and Fringe Meetings
13.30	Motions (Session 4) Libya Affordable Housing Sudan and South Sudan
14.00	Discussion Session
14.30	Ieuan Wyn Jones AM, Plaid Cymru Leader - Speech
15.15	Motions (Session 5) Towards Greater Freedom of Information, Transparency and Accountability Emergency Motion 1 Equality in Marriage and Civil Partnership
15.40	Internal Motions and Hustings Use of the Welsh Language Coalition Membership Fee Election Results Hustings for Chair and Director of Organisation
16.30	Fringe Meetings

DYDD SADWRN

09.30	Cynigion (Sesiwn 6) Stelcian Ynni Niwclear ac Ynni Adnewyddadwy Tai, Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru Diwygio Dedfrydu
10.30	Elin Jones AC, Cyfarwyddydd Cyfathrebu - Araith
10.45	Cynigion (Sesiwn 7) Polisi Amaethyddol Cyffredin Annibyniaeth i Gymru yn Ewrop Cynnig Brys 2
11.30	Sesiwn Trafod
12.15	Cinio a Chyfarfodydd Ymylol
13.30	Dafydd Wigley - Araith
13.40	Sesiwn Trafod
14.30	Elfyn Llwyd AS, Arweinydd San Steffan - Araith
14.45	Cynigion (Sesiwn 8) Gofalwyr Cynnig Brys 3 Diogelwch Bwyd Cefnogi Myfyrwyr Cymreig
15.40	Jill Evans ASE, Llywydd Plaid Cymru - Araith
15.55	Gwobrau Cyfraniad Arbennig
16.20	Rhuanedd Richards, Prif Weithredwr - Araith Gloi
16.30	Cyfarfodydd Ymylol

SATURDAY

09.30	Motions (Session 6) Stalking Nuclear Energy and Renewable Energy Housing, LDPs and the Welsh Government Sentencing Reform
10.30	Elin Jones AM, Director of Communications - Speech
10.45	Motions (Session 7) Common Agricultural Policy Independence for Wales in Europe Emergency Motion 2
11.30	Discussion Session
12.15	Lunch and Fringe Meetings
13.30	Dafydd Wigley - Speech
13.40	Discussion Session
14.30	Elfyn Llwyd MP, Westminster Leader - Speech
14.45	Motions (Session 8) Carers Emergency Motion 3 Food Security Supporting Welsh Students
15.40	Jill Evans MEP, Plaid Cymru President - Speech
15.55	Outstanding Contribution Awards
16.20	Rhuanedd Richards, Chief Executive - Closing Speech
16.30	Fringe Meetings

Cofnodion Byr 2010

Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Pasiwyd heb welliant.
Cyfiawnder i Ddiodefwyr Trais, Trais Rhywiol a Chamdrin yn y Cartref – Pasiwyd gyda gwelliant rhanol.
Adnoddau Morwrol – Pasiwyd gyda gwelliannau 1 a 2.
Cronfeydd Strwythurol – Pasiwyd gyda gwelliannau 1,2 a 3.
Cludiant Cynaliadwy – Pasiwyd gyda gwelliannau 1,2 a 3.
Addysg Cyfrwng Cymraeg – Pasiwyd gyda gwelliannau 1 a 2.
Addysg – Pasiwyd.
Safleoedd o Ddiddordeb Ieithyddol Arbennig – Pasiwyd.
S4C (Cynnig Brys) – Pasiwyd.
Ffioedd Dysgu Addysg Uwch – Pasiwyd gyda gwelliannau 2 a 3.
Cymru Ddiogelach – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Darlledu yng Nghymru – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Statws Ysgolion – Pasiwyd.
Caniatad Tybiedig ar Gyfer Rhoi Organau – Passed.
Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Gwelliant i'r Cyfansoddiad - Aelodau Ychwanegol (Mewnol) – Gwrthodwyd.
Buddsoddiadau Pensiwn – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Newid Hinsawdd – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru – Pasiwyd.
Budd-dal Tai(Cynnig Brys) – Pasiwyd.
Cyllido Teg, Diwygio Cyfansoddiadol â Llywodraeth Glymblaid y Ceidwadwyr / Democratiaid Rhyddfrydol – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Glo – Pasiwyd gyda gwelliant 2.
Cytundeb Meddygon Teulu – Pasiwyd.
Pegwn Olew a Newid Hinsawdd – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Tegwch – Pasiwyd gyda gwelliant 2.
Rheoleiddio'r Banciau – Pasiwyd.
Gwasanaeth Ambiwlans – Pasiwyd gyda gwelliant 1.
Rhaglen Adnewyddu Economaidd – Pasiwyd.
Llyn Efyrrwy (Cynnig Brys) – Pasiwyd.

Short Minutes 2010

Social Care in Wales – Passed without amendment.
Justice for Victims of Rape, Sexual Violence and Domestic Abuse – Passed with partial amendment.
Maritime Resources – Passed with amendments 1 and 2.
Structural Funds – Passed with amendments 1,2 and 3.
Sustainable Transport – Passed with amendments 1,2 and 3.
Welsh Medium Education – Passed with amendment 1 and 2.
Education – Passed.
Sites of Special Linguistic Interest – Passed.
S4C (Emergency Motion) – Passed.
Higher Education Tuition Fees – Passed with amendment 2 and 3.
A Safer Wales – Passed with amendment 1.
Broadcasting in Wales – Passed with amendment 1.
Status of Schools – Passed.
Presumed Consent for Organ Donation – Passed.
A Greenprint for the Valleys – Passed with amendment 1.
Amendment to the Constitution – Additional Members (Internal) – Rejected.
Pensions Investments – Passed with amendment 1.
Climate Change – Passed with amendment 1.
A Welsh Public Service – Passed.
Housing Benefits (Emergency Motion) – Passed.
Fair Funding, Constitutional Reform and the Conservative – Liberal Democrat Coalition Government – Passed with amendment 1.
Coal – Passed with amendment 2.
GP Contracts – Passed.
Peak Oil and Climate Change – Passed with amendment 1.
Fairness – Passed with amendment 2.
Bank Regulation – Passed.
Ambulance Service – Passed with amendment 1.
Economic Renewal Programme – Passed.
Lake Vyrnwy (Emergency Motion) – Passed.

Amserlen Cynhadledd Flynyddol 2011

Dydd Iau

DATGANOLI STRWYTHUR Y BLAID

(Cangen Waunfawr / Cangen Wreccsam)

Cydnabyddar gynhadledd yma mai un o flaenoriaethau mewnol y Blaid yw cryfhau ac atgyfnerthu ei strwythur cangen ar lawr gwlad.

Cred y gynhadledd fod gormod o sylw wedi ei roi yn y gorffennol agos at lunio strategaethau o'r canol ar draul ymgyrchu mewn etholaethau yn y maes.

Cyfarwyddar gynhadledd y Prif Weithredwr i lunio cynllun i ddatganoli peirianwaith y Blaid i bob rhan o Gymru a dysgu o brofiad gorau mewn ardaloedd lle mae'r Blaid yn llwyddo i ddenu aelodau newydd, dod yn fwy dylanwadol ac lle mai posibilrwydd cryf i Blaid Cymru lwyddo i ennill grym gwleidyddol.

YR ENW PLAID CYMRU

(Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe, Gŵyr, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Noda'r Gynhadledd:

1. Yr adolygiad sy'n digwydd i berfformiad y blaid yn Etholiad Cynulliad 2011.
2. Ail-frandio'r blaid yn 2006 a cyflwyno logo newydd.
3. Fod llawer o bobl ledled Cymru yn cyfeirio at y blaid yn unig fel 'Plaid' neu 'y Blaid'.
4. Fod hunaniaeth a logo'r blaid wedi eu datblygu o logo'r Triban oedd yn cynrychioli tri o werthoedd allweddol Plaid Cymru sef hunanlywodraeth, ffyniant diwylliannol a ffyniant economaidd, i un seiliedig ar 'dwf organig' gyda'r nod o ehangu ein hapêl fel plaid.
5. Fod gan y blaid nifer o wahanol arddulliau i'r logo, a llawer ohonynt heb gymryd sylw o'r gair 'Cymru'.
6. Mai Plaid Cymru oedd yr unig un o'r pedair prif blaid wleidyddol yn Etholiad Cynulliad 2011 heb y gair 'Cymru' yn enw ein plaid na'r deunyddiau etholiadol.

Cred y Gynhadledd:

1. Y bu ansawdd y gwaith dylunio ar wefan a llenyddiaeth y blaid o'r safon uchaf.
2. Nad oes ar y Blaid angen ymarferiad ailfrandio a gymer amser ac arian.
3. Y bydd y Blaid yn ddiamau yn asesu ein cyfeiriad a'n hamcanion i ddod yn y dyfodol agos.
4. Fod pleidiau gwleidyddol eraill wedi ymagweddu yn fwy cenedlaetholgar na Phlaid Cymru – er nad yw eu polisiau yn cyfateb i'r brandio.

Cyfarwyddar Gynhadledd:

1. Y swyddfa genedlaethol i adfer 'Cymru' i frandio a llenyddiaeth y blaid yn ddiymdroi er mwyn sicrhau y cyfeirir at y blaid fel Plaid Cymru.
2. Gynrychiolwyr a lfeiarwyr y Blaid i gyfeirio at y blaid fel Plaid Cymru.

Annual Conference Timetable 2011

Thursday

DEVOLVING THE PARTY STRUCTURE

(Waunfawr Branch / Wrexham Branch)

This conference recognises that one of Plaid's internal priorities is to strengthen and revitalise its grassroots branch structure.

Conference believes that there has been an over-emphasis in the past on developing strategies from the centre at the expense of campaigning in constituencies.

Conference instructs the Chief Executive to draw up plans to devolve the party machinery to all parts of Wales and to take on board best practice in areas where Plaid is recruiting members, gaining influence and where there is a real possibility of Plaid gaining politically.

THE NAME PLAID CYMRU

(Swansea West, Swansea East, Gower, Carmarthen East and Dinefwr)

Conference notes:

1. The on-going review into the party's performance in the 2011 Assembly election.
2. The rebranding of the party in 2006 and the introduction of a new logo.
3. That many people throughout Wales only refer to the party as 'Plaid' or 'y Blaid' in Welsh.
4. The party's identity and logo was developed from the Triban logo which represented the three key Plaid Cymru values of self-government, cultural prosperity and economic prosperity, to one based on 'organic growth' which was aimed to broaden our appeal as a party.
5. The party has a number of different logo styles, many of which disregard the word 'Cymru'.
6. That Plaid Cymru was the only of the four main political parties in the 2011 Assembly Election not to have the word 'Cymru' in our party name and/or election materials.

Conference believes:

1. The quality of design work on the party website and on party literature has been of the highest standard.
2. The party doesn't need a costly and time consuming rebranding exercise.
3. The party will undoubtedly be assessing our direction and future objectives in the near future.
4. Other political parties have achieved a more nationalist appearance than Plaid Cymru – even though their policies do not match their branding.

Conference instructs:

1. The national office to reinstate 'Cymru' in the party's branding and literature with immediate effect to ensure the party is referred to as Plaid Cymru.
2. Party representatives and spokespersons to refer to the party as Plaid Cymru.

YR ECONOMI

(Etholaeth y Rhondda)

Noda'r Gynhadledd:

1. Fod CMC Cymru 26% yn is na chyfartaledd y DU.
2. Y rhagwelir y bydd prisiau bwyd y byd yn dyblu erbyn 2030.
3. Brisiau cynyddol ynni.
4. Yr angen am ddull newydd o sbarduno economi Cymru os ydym am bontio'r bwllch/gwahaniaeth hwn.
5. Gyfraniadau cyn-aelodau at wleidyddiaeth ac egwyddorion Plaid Cymru, yn arbennig felly DJ Davies, Noelle Ffrench a Raymond Williams, ynghyd â'u cred diwyro yng ngwerth 'cymuned'.
6. 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd': cynllun creu swyddi gwyrdd i'r cymoedd yn seiliedig ar egwyddorion sosialaeth gymunedol: hunangynhaliath, cydweithredu a hunan-benderfyniad – yr egwyddorion a argymhellwyd gan Davies a Ffrench.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Gynhyrchu cynllun economaidd hirdymor a fydd yn gweithredu'r egwyddorion hyn i ddatrys y problemau sy'n andwyo cymunedau Cymru heddiw: diweithdra, cartrefi o safon gwael, toriadau yn y sector gyhoeddus sy'n arwain at gollu cyfleoedd addysgiadol a diwylliannol a chyfleusterau hamdden, codiadau mewn prisiau bwyd a thanwydd, lefel isel o sgiliau a phobl yn disgyn drwy rhwyd y ddarpariaeth les.
2. Y dylai'r fath gynllun fod yn hirdymor a dylai anelu at gael gwared o'r bwllch cyfoeth rhwng Cymru a chyfartaledd y DU, gan ateb y dadleuon 'allwn ni ddim ei fforddio' parthed ymreolaeth i Gymru.
3. Gynhyrchu maniffesto llywodraeth leol sy'n gweddu â'r cynllun economaidd i greu gweithgarwch economaidd mewn cymunedau lleol. Dylid datblygu argymhellion 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' yn gasgliad o argymhellion y gellir eu gweithredu gan awdurdodau lleol dan reolaeth y Blaid ledled Cymru gyfan. Dylai cynhyrchu incwm a gweithgarwch economaidd lleol wedi ei ysgogi gan yr awdurdod lleol fod yn brif ffocws er mwyn i Blaid Cymru allu cynnig dewis amgen i 'reoli'r toriadau'.

Gwelliant 1 (Pwyllgor Gwaith)

Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd Noda'r Gynhadledd:

7. Fod Rhaglen Adfywio Economaidd Llywodraeth Cymru'n Un wedi cydnabod pwysigrwydd gwella'r seilwaith ar gyfer datblygu economaidd a'i bod yn awr yn darparu'r fframwaith ar gyfer ail-godi economi Cymru.

Gwelliant 2 (Etholaeth Ynys Môn)

Dileu paragraff 6 ac yn ei le rhoi 'Mae'r syniadau oddi mewn i 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' ac egwyddorion sosialaeth gymunedol yn gyson gyda'r cyfeiriad sydd ei angen i adeiladu economi gynaliadwy.

O dan noda'r Gynhadledd ychwaneger pwynt 7, 'Y cyfeiriad polisi a gymerodd llywodraeth Cymru'n Un yn y ddogfen 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' a oedd yn cydnabod yr angen i gryfhau economi Cymru drwy ddatblygiad

THE ECONOMY

(Rhondda Constituency)

Conference notes:

1. Wales's GDP is 26% lower than the UK average.
2. That world food prices are predicted to double by 2030.
3. Rising energy prices.
4. The need for a new approach to stimulate the Welsh economy if this gap is to be bridged.
5. The contributions to Plaid Cymru's politics and philosophy from past members, in particular those from DJ Davies, Noelle Ffrench and Raymond Williams and their firm belief in the value of 'community'.
6. 'A Greenprint for the Valleys': a green jobs creation plan for the valleys based on the principles of community socialism: self sufficiency, co-operation and self-determination - the principles advocated by Davies and Ffrench.

Conference resolves to:

1. Produce a long-term economic plan which applies these principles to solve the problems which blight Welsh communities today: unemployment, poor quality housing, public sector cuts which result in the loss of educational and cultural opportunities and leisure facilities, fuel and food price increases, low skills and people falling through the gaps of welfare provision.
2. Such a plan should be long term and should aim to plug the wealth gap between Wales and the UK average, dispelling the 'unaffordability' arguments of Welsh autonomy.
3. Produce a local government manifesto which fits in with the economic plan that aims to generate economic activity in local communities. The proposals in 'A Greenprint for the Valleys' should be worked up into a set of proposals that can be implemented by Plaid-run local authorities throughout the whole of Wales. Income generation and local authority-stimulated local economic activity should be a major focus in order that Plaid Cymru can present an alternative to 'managing the cuts'.

Amendment 1 (NEC)

Add new point at end of Conference notes:

7. The One Wales Government's Economic Renewal Programme has recognised the importance of improving infrastructure for economic development and is now providing the framework for re-building the Welsh economy.

Amendment 2 (Ynys Môn Constituency)

Replace point 6 with the following. The ideas within a 'Greenprint for the Valleys', and the principles of community socialism fit well with the overall approach of building a sustainable economy.

Under the section Conference Notes add new point 7 'The policy approach taken by the One Wales government in the document 'Economic Renewal: a new direction' which recognised the need for Wales to strengthen its economy

cynaliadwy. Mae'r cyfeiriad yma'n gyson gyda thraddodiad y Blaid o gredu mewn gwerth cymunedau a'r angen i'w datblygu i fod yn gymunedau cynaliadwy.”

Ar ôl Penderfyna'r Gynhadledd ar ddechrau pwynt 1 'Gan adeiladu ar y gwaith yn Adnewyddu'r Economi'.

NWY SIÂL

(Cangen y Barri)

Noda'r Gynhadledd:

1. Adroddiadau fod pocedi helaeth o nwy siâl i'w cael a'u cloddio o dan ddaear Cymru.
2. Bryderon ynghylch diogelwch wrth dynnu nwy siâl yn Unol Daleithiau America ac Ewrop.
3. Mai tanwydd ffosil yw nwy siâl na ellir ei adnewyddu.

Cadarnha'r Gynhadledd:

1. Gefnogaeth Plaid Cymru i ddatblygu ynni adnewyddadwy ar gyfer byd cynaliadwy.
2. Yr egwyddor fod yr holl fwynau ac adnoddau yn nhiriogaeth Cymru yn perthyn i bobl Cymru ac nid i gyrff allanol, ac mai pobl Cymru ddylai elwa o unrhyw fanteisio ar y cyfryw adnoddau.
3. Y dylai Llywodraeth Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd feddu ar y pwerau i bennu unrhyw bolisi ynni yng Nghymru.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Am i bwerau llawn dros bolisi ynni gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru.
2. Am i ddatblygu ynni adnewyddadwy wastad fod yn flaenoriaeth i Blaid Cymru a Llywodraeth Cymru.
3. Am ddim manteisio o gwbl ar adnoddau honedig nwy siâl Cymru hyd nes bod modd profi bod y dechnoleg a ddefnyddir yn hollol ddiogel.
4. I unrhyw fanteisio ariannol o dynnu nwy siâl gael eu gweld gan bobl Cymru trwy gronfa ynni Gymreig a fyddai'n hybu cynaladwyedd ynni rhyng-gynhyrchu ac yn buddsoddi ar ran pobl Cymru.

YR HAWL I SEFYLL

(Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe, Gwyr, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Noda'r Gynhadledd:

Bod y newid i'r rheolau sydd ynglŷn â gallu sefyll i fod yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol fel aelod Etholaeth ac aelod Rhestr wedi ei greu yn 2006 i ddibenion y Blaid Lafur.

Mynna'r Gynhadledd:

Y dylai ein haelodau etholedig ar bob lefel, ymgyrchu dros newid y ddeddf yma gan ryddhau ein hymgeiswyr i sefyll yn y ddwy.

through sustainable development. This approach is very much in tune with the party's tradition of belief in community and the need to develop those communities sustainably'.

After Conference resolves, in point 1 add at the beginning ' Building on the work contained within Economic Renewal'.

SHALE GAS

(Barry Branch)

Conference notes:

1. Reports that there are significant pockets of shale gas which can be found and extracted from underneath ground in Wales.
2. Concerns relating to safety in the extraction of shale gas in the United States of America and in Europe.
3. That shale gas is a fossil fuel which cannot be replaced.

Conference reaffirms:

1. Plaid Cymru's support for developing renewable energy sources for a sustainable world.
2. The principle that all minerals and resources in Welsh territories belong to the people of Wales and not to outside organisations and that the people of Wales should benefit from any exploitation of such resources.
3. That the democratically elected Welsh Government should have the powers to determine any energy policy in Wales.

Conference calls:

1. For full powers over energy policy to be devolved to the Welsh Government.
2. For development of renewable energies to always be the priority for Plaid Cymru and the Welsh Government.
3. For no exploitation of Wales' alleged shale gas resources until such time as the technology used can be proved to be thoroughly safe.
4. For any financial benefits of extraction of shale gas to be seen by the people of Wales through a Welsh energy fund which would promote inter-generational energy sustainability and invest on behalf of the people of Wales.

THE RIGHT TO STAND

(Swansea West, Swansea East, Gower, Carmarthen East & Dinefwr)

Conference notes:

The changes to the rules on standing for both the National Assembly regional list and constituency by the Government of Wales Act 2006, was introduced by the Labour Party to serve its own interests.

Conference instructs:

Elected members at all levels to lobby for a change in the legislation to allow dual candidacy for the Welsh General Elections.

Amserlen Cynhadledd Flynyddol 2011

Dydd Gwener

09.35 Croeso – Llyr Huws Gruffydd AC

09.50 Cynigion (Sesiwn 2)

DARLLEDU YNG NGHYMURU

(Cangen Llundain / Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r gynhadledd:

1. Bod S4C wedi'i greu o ganlyniad i ymgyrch hir gan gynnwys gweithredu uniongyrchol di-drais.
2. Y modd milain y triniwyd S4C, nad oedd yn ystyried o gwbl sylfaen statudol ei sefydlu nac unrhyw sensitifrwydd i'w chenhadaeth ddiwylliannol, y difrawder sydd gan Adran San Steffan dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon tuag at ddarlledu yng Nghymru.
3. Bod y bwriad i osod S4C o dan reolaeth y BBC yn ei hamddifadu o'i hannibyniaeth ac bod cynnwys S4C yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus yn ei gadael yn agored i ymyrraeth posibl ac yn dileu ei sicrwydd cyfansoddiadol.

Noda'r gynhadledd ymhellach:

1. Bod y BBC yn Llundain wedi methu ag ymaddasu i ddatganoli; addawodd lawer a chyflawni fawr ddim. Nid yw'n ymateb i feiriadaeth o'r methiant hwn. Mae eu rhaglenni rhwydwaith yn gyson yn cyflwyno gwedd fetropolitaid o'r DG, ac anwybyddir natur unigryw cymdeithas, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru i raddau helaeth.

Cred y gynhadledd:

1. Dim ond trwy dderbyn ei hincwm ei hun a gosod ei threfn ei hun o raglenni y gall BBC Cymru gynllunio ei chyllideb ei hun yn iawn, ac adlewyrchu cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y sefydliad yng Nghymru.

Geilw'r gynhadledd:

1. Am ddatganoli y tu mewn i'r BBC ac am gytundeb newydd rhwng BBC Cymru a'r BBC yn Lloegr. Geilw'r Gynhadledd ar i Blaid Cymru ymchwilio i bosibiliadau talu'r ffioedd trwydded a godir yng Nghymru i BBC Cymru, a fyddai wedyn yn cytuno i dalu yn unig am y gwasanaethau hynny y dymunai eu derbyn gan y BBC yn Lloegr, a hefyd y potensial i BBC Cymru gael yr hawl i ddarparu rhaglennu am gyfran y cytunir arni o gyfanswm y darlledu ar rwydwaith y DG, wedi'i gysylltu â'r gyfran o'r boblogaeth.

Geilw'r gynhadledd ymhellach:

1. Am ddiogelu S4C annibynnol yn olygyddol ac yn ariannol.
2. Ar lywodraeth y DG i dynnu ei chynigion a chaniatáu adolygiad llawn yn nyfodol S4C.
3. Am ddatganoli holl bwerau darlledu i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y gellir sefydlu fframwaith ar gyfer sector darlledu Cymreig i wasanaethu anghenion Cymru ar gyfer rhaglennu ac i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Annual Conference Timetable 2011

Friday

09.35 Welcome – Llyr Huws Gruffydd AM

09.50 Motions (Session 2)

BROADCASTING IN WALES

(London Branch / European Parliamentary Group)

Conference notes:

1. That S4C was created as a result of a long campaign including non violent direct action.
2. The savage treatment of S4C, which took no account of the statutory basis on which it was founded or any sensitivity to its cultural mission, showed the indifference with which the Westminster Department for Culture Media and Sport treats broadcasting in Wales.
3. That the proposal to place S4C under BBC control takes away its independence and S4C's inclusion in the Public Bodies Bill leaves it subject to potential interference and removes its constitutional certainty.

Conference further notes:

1. The BBC in London has failed to adapt to devolution; it has promised much and delivered little. Its network programmes consistently deliver a metropolitan view of the UK, and the distinctive nature of Welsh society, culture, and politics is largely ignored.

Conference believes:

1. It is only by receiving its own income and setting its own programme schedule that BBC Wales can properly plan its own budget, and reflect the public service mission of the organisation in Wales.

Conference calls:

1. For devolution within the BBC and a new agreement between BBC Wales and the BBC in England. Conference calls upon Plaid Cymru to research the potential for licence fees raised in Wales to be payable to BBC Wales, which would then agree to pay only for those services which it wanted to receive from the BBC in England, and also the potential for BBC Wales to be entitled to provide programming for an agreed proportion of the total amount of broadcasting on the UK network linked to proportion of population.

Conference further calls:

1. For the protection of an independent S4C both editorially and financially.
2. On the UK government to withdraw its proposals and allow a full review into the future of S4C.
3. For the devolution of all broadcasting powers to the National Assembly so that a framework can be established for a Welsh broadcasting sector to serve the needs for Wales for programming and to provide a service in Welsh and in English.

Cefnoga'r Gynhadledd ymgyrch Cymdeithas yr Iaith gan gynnwys yr ymgyrch i atal ffioedd trwydded.

Gwelliant 1 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol / Etholaeth Ynys Môn)

Dileu y paragraff olaf.

CYLLIDO CYMRU

(Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol)

Cred y gynhadledd nad yw'r setliad cyfansoddiadol a chyllidol presennol yn ymateb yn ddigonol i ddyheadau ac anghenion pobl Cymru.

Nodwn bod Llywodraeth yr Alban o dan arweiniad yr SNP eisoes yn hawlio rhagor o bwerau er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i anghenion y wlad er bod y setliad cyfansoddiadol ac ariannol gymaint cadarnach nag un Cymru.

Wrth fynnu pwerau ychwanegol rhaid mynd i'r afael â diffygion sylfaenol yr economi Gymreig. Rhan o'r gwendid strwythurol hwnnw yw diffygion amlwg Fformiwla Barnett a diffyg hyblygrwydd ariannol o ran pwerau Llywodraeth Cymru.

Rydym yn galw ar y Plaid i ymgyrchu'n galed i wireddu argymhellion Comisiwn Holtham.

Geilw'r gynhadledd ar Bwyllgor Gwaith Plaid Cymru i greu gweithgor i ymchwilio i'r holl agweddau ynglŷn ac ariannu Cymru fydd yn cynnwys yr hawl i amrywio trethi, yr hawl i fenthyca, Fformiwla Barnett, gwasanaethau a ariennir yn uniongyrchol gan San Steffan neu unrhyw fater cysylltiol arall. Bydd y Gweithgor yn adrodd yn ôl gydag argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn ei dro yn adrodd yn ôl i'r Gynhadledd yn 2012.

TRIN GWASTRAFF A LLOSGI GWASTRAFF

(Canghennau Casnewydd / Cangen Sir Fynwy)

1. Croesawa'r Gynhadledd bolisiau Llywodraeth Cymru ar leihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
2. Gresyna'r Gynhadledd fodd bynnag fod polisiau Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hybu llosgi fel ateb i wastraff gweddilliol, a chondemnia ddewis Prosiect Gwyrdd o restr fer sy'n cynnwys dim ond llosgyddion i drin gwastraff Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg – gyda'r llosgydd arfaethedig ym Merthyr yn debygol o fod yr un mwyaf yn y DG, ac i gymryd gwastraff o bob cwr o Gymru, Lloegr, Ewrop a thu hwnt.
3. Noda, lle gall technolegau modiwlaid mwy modern ymateb i newidiadau yn swmp a chyfansoddiad gwastraff, nad yw llosgi yn hyblyg, gan ei fod yn mynnu cyflenwad cyson o wastraff i'w gymryd dros isafswm contract 25 mlynedd – sydd yn andwyol o ran lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
4. Noda effaith andwyol llosgyddion gwastraff ar yr amgylchedd: (a) eu hallyriadau gronynnau mân iawn ar iechyd a (b) eu hallyriadau carbon enfawr ar newid hinsawdd.

Conference supports the Cymdeithas yr Iaith campaign including the campaign to withhold license fees.

Amendment 1 (National Assembly Group / Ynys Môn Constituency)

Delete the final paragraph.

FUNDING WALES

(National Assembly Group)

Conference believes that the present constitutional and fiscal settlement does not sufficiently meet the needs and aspirations of the people of Wales.

We note that the Scottish Government under the leadership of the SNP already demands more powers so as to respond effectively to the needs of the country although the constitutional and fiscal settlement is more robust than that of Wales. In demanding additional powers, we must combat the underlying flaws of the Welsh economy. Part of that structural weakness lies in the obvious deficiencies of the Barnett Formula and the lack of fiscal flexibility regarding the powers of the Welsh Government.

We call on Plaid to campaign vigorously to realise the Holtham Commission recommendations.

Conference calls on the Plaid Cymru National Executive to establish a working party to investigate all aspects related to funding Wales which will include the right to vary taxes, the right to borrow, the Barnett Formula, services funded directly by Westminster, or any other associated issue. The Working Party shall report back with recommendations to the National Executive, which will in turn report back to the 2012 Conference.

WASTE TREATMENT AND WASTE INCINERATION

(Newport Branches / Monmouth Branch)

1. Conference welcomes Welsh Government policies on reduction, reuse & recycling of waste.
2. Conference deplures, however, that Welsh Government policies are actively promoting incineration as a solution to residual waste and it condemns Prosiect Gwyrdd's choice of an all-incinerator shortlist for treating the waste of Caerphilly, Cardiff, Monmouth, Newport and Vale of Glamorgan - with the incinerator proposed at Merthyr likely to be the biggest in the UK and to take waste from all over Wales, England, Europe, and elsewhere.
3. It notes that whereas more modern modular technologies are able to respond to changes in quantity and composition of waste, incineration is inflexible requiring continuous guaranteed minimum inputs of waste over a minimum 25-year contract - which is prejudicial to waste reduction, reuse and recycling.
4. It notes the detrimental effect of waste incinerators on the environment: (a) their toxic ultra-fine particle emissions on health and (b) their huge carbon emissions on climate change.

5. Condemnia'r Gynhadledd fethiant Llywodraeth Cymru i ymchwilio'n ddigonol i ddulliau mwy effeithlon a chynaliadwy o drin gwastraff megis pyrolysis, nwyeddio neu nwyeddio plasma'r gweddillion.

Noda'r Gynhadledd ymhellach gyfarwydddeb y GE ar wastraff 2008/98/ EC Tach.2008 (yng nghyfraith y DG, Rhagfyr 2010) sydd yn mynnu bod aelod-wladwriaethau yn defnyddio'r dechnoleg orau sydd ar gael (nwyeddio plasma).

Geilw'r Gynhadledd felly:

Ar i'r Blaid gadarnhau cynigion a basiwyd mewn cynadleddau blaenorol yn condemnio llosgi fel dull o drin gwastraff, ar i'r Blaid lobbio yn erbyn polisi Llywodraeth Cymru o fynd ati i hybu llosgi yn hytrach nac annog triniaethau gwastraff mwy hyblyg a charedicach i'r amgylchedd, ac i'r Blaid wrthwynebu ar lefel leol llosgi fel ateb i wastraff gweddilliol yn ne-ddwyrain Cymru (Prosiect Gwyrdd) nac mewn unrhyw ran arall o Gymru.

10.30 SESIWN TRAFOD

11.15 Humza Yousaf ASA, Siaradwr Gwadd SNP

11.30 Cynigion (Sesiwn 3)

ARIAN POLISI CYDLYNLIANT EWROPEAIDD

(Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r Gynhadledd bod y rownd bresennol Arian Polisi Cydlyniant Ewropeaidd yn dod i ben yn 2013 a'r posibilrwydd y gallai Cymru fod yn gymwys ar gyfer cyllido pellach.

Condemnia'r gynhadledd ymdrechion llywodraethau olynol y DG i ailwladoli cyllid cydlyniant heb unrhyw sicrwydd y byddai cyllid y Trysorlys yn cymryd ei le.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Ar yr UE i gynnal o leiaf y lefelau presennol o wariant ar Bolisi Cydlyniant.
2. I'r ffocws i aros ar yr holl rhanbarthau tlotaf.
3. I gefnogaeth drawsnewidiol deg gael ei rhoi i ranbarthau sydd bellach ddim yn gymwys ar gyfer cyllid Cydlyniant.
4. I diffiniadau o ardaloedd trefol / gwledig gael eu gwneud gan y rhanbarthau.
5. I symleiddio'r prosesau ceisiadau am grant a chymeradwyo.

GOFAL CYMDEITHASOL

(Etholaeth Llanelli)

Noda'r Gynhadledd gyda phryder:

1. Y datgeliadau dros y misoedd diwethaf am gam-drin dirifol mewn rhai cartrefi gofal, a lefel isel gyson o esgeulustod ac amarch a ddangosir i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn llawer mwy.
2. Yr anawsterau ariannol dirifol a wynebwyd dros y misoedd diwethaf gan

5. Conference condemns the Welsh Government's failure to adequately explore more efficient and sustainable waste treatment solutions such as pyrolysis, gasification or plasma gasification of final residues.

Furthermore conference notes the EC directive on waste 2008/98/ EC of Nov.2008 (in UK Law December 2010) insists member states use best available technology (plasma gasification).

Conference calls therefore:

For Plaid to reiterate motions passed in previous conferences condemning incineration as a treatment of waste, for Plaid to lobby against the Welsh Government policy of actively promoting incineration instead encouraging more flexible and environmentally friendly waste treatments, and for Plaid to oppose at a local level incineration as a solution to residual waste in SE Wales (Prosiect Gwyrdd) or in any other part of Wales.

10.30 DISCUSSION SESSION

11.15 Humza Yousaf MSP, SNP Guest Speaker

11.30 Motions (Session 3)

EUROPEAN COHESION FUNDING

(European Parliamentary Group)

Conference notes that the current round of European Cohesion Funding ends in 2013 and the possibility that Wales could qualify for further funding.

Conference condemns successive UK governments attempts to renationalise cohesion funding with no guarantee that the funding would be replaced by Treasury funding.

Conference calls:

1. On the EU to at least maintain current levels of spending on Cohesion Policy.
2. For the focus to remain on all the poorest regions.
3. For fair transitional support to be given to regions which no longer qualify for Cohesion funding.
4. For the definitions of urban/rural areas to be left to the regions.
5. For simplification of the grant application and approval processes.

SOCIAL CARE

(Llanelli Constituency)

Conference notes with concern:

1. The revelations over recent months of severe abuse in some care home settings and persistent low level neglect of and disrespect shown to service users in many more.
2. The serious financial difficulties faced in recent months by a major private

ddarparwr cartrefi gofal mawr yn y sector preifat a'r straen a roddwyd wedyn ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

3. Symudiadau gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru i dynnu'n ôl yn llwyr o ddarparu cartrefi gofal a gofal cartref yn uniongyrchol.
4. Yr anawsterau sydd yn gyson yn wynebu pobl fregus a'u teuluoedd wrth geisio gweithio eu ffyrdd trwy'r fiwrocratiaeth gymhleth sy'n amgylchynu darpariaeth iechyd a gofal a chyllido'r ddarpariaeth honno.

Cadarnha'r Gynhadledd gred Plaid Cymru ei bod bron yn amhosibl gwahaniaethu yn deg a chyson rhwng anghenion iechyd a gofal, ac yn y pen draw y dylai pob gofal fod am ddim ar bwynt cyflwyno ac y dylid talu amdano trwy drethiant cyffredinol.

Yn y tymor byr, geilw'r Gynhadledd ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

1. Hybu economi gymysg o ofal, i atal monopolïau'r sector preifat, sicrhau cadw darpariaeth y sector cyhoeddus lle bo hwnnw'n dal i fod, ac annog ail ddarpariaeth lle'i collwyd, a hybu cyfranogiad y trydydd sector a mentrau cydweithredol cymunedol wrth ddarparu gofal.
2. Cymell awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i rannu cyllidebau.
3. Lleihau'r fiwrocratiaeth sydd o gwmpas Cyllid Gofal Iechyd Parhaus, gan sicrhau y gorfodir meini prawf clir, cenedlaethol, a bod pecynnau Cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn ddigon hyblyg i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i fyw'r bywydau mwyaf annibynnol ag sydd modd pe dymument.

Gwelliant 1 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol)

Dileu "Cymell awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i rannu cyllidebau" a rhoi yn ei le "Annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i rannu cyllidebau er mwyn cyllido'r gwasanaethau gofal cymdeithasol hynny sydd wedi eu lleoli yn fwyaf priodol yn y gymuned".

CYNLLUN CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI

(Grŵp San Steffan / Etholaeth Llanelli)

Ailgadarnha'r Gynhadledd cred Plaid Cymru fod gan bob unigolyn a theulu hawl sylfaenol i gartref parchus a fforddiadwy sy'n ateb eu hanghenion yn eu cymuned.

Condemnia'r Gynhadledd y newidiadau i fudd-dal tai a gyflwynir gan Lywodraeth Geidwadol/Democrataidd Rhyddfrydol San Steffan fydd yn golygu gorfodi miloedd o aelwydydd allan o'n dinasoedd ac ardaloedd eraill lle mae rhenti yn uchel.

Noda'r gynhadledd:

1. Fod tenantiaid tai cyngor ac awdurdodau lleol Cymru wedi talu dros £1biliwn i'r Trysorlys ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ganlyniad i'r Cynllun Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai.
2. Tra bod awdurdodau lleol yn cyfrannu at y cynllun hwn, nid yw landlordiaid preifat neu gymdeithasol yn cyfrannu, a bod hyn wedi milwrio yn erbyn parhad perchenogaeth gan y sector cyhoeddus o stoc tai cyngor, ac wedi cyfrannu at drosglwyddo stoc tai cyngor yng Nghymru.
3. Dengys parhad y cynllun hwn yng Nghymru ar ôl ei ddiwygio yn Lloegr fethiant

sector care home provider and the resulting stress placed on service users and their families.

3. Moves by some local authorities in Wales to withdraw altogether from direct provision of care homes and homecare.
4. The ongoing difficulties faced by vulnerable people and their families trying to negotiate their way through the complex bureaucracy surrounding health and care provision and the funding of that provision.

Conference reaffirms Plaid Cymru's belief that it is almost impossible to distinguish fairly and consistently between health and social care needs and that ultimately all care should be free at the point of delivery and paid for through general taxation.

In the short term Conference calls on the Welsh Government to:

1. Promote a mixed economy of care, preventing private sector monopolies, ensuring the retention of public sector provision where it still exists and encouraging re-provision where it has been lost, and promoting the participation of the Third Sector and community co-operatives in the provision of care.
2. Compel the sharing of budgets between Local Authorities and Local Health Boards.
3. Reduce the bureaucracy surrounding Continuing Healthcare Funding, ensuring clear, national criteria are enforced, and that Continuing Healthcare Funding packages are sufficiently flexible to enable service users to live the most independent lives possible if they so wish.

Amendment 1 (National Assembly Group)

Delete "Compel local authorities and local health boards to share budgets" and replace with "Urge local authorities and health boards to share budgets in order to fund those social care services that are most appropriately located in the community".

HOUSING REVENUE ACCOUNT SUBSIDY SCHEME

(Westminster Group / Llanelli Constituency)

Conference reaffirms Plaid Cymru's belief that every individual and every family has a fundamental right to a decent affordable home that meets their needs in their community.

Conference condemns the changes to housing benefits being introduced by the Conservative / Liberal Democrat Westminster Government that will see thousands of households forced out of our cities and other areas of high rental value.

Conference notes:

1. Welsh council tenants and local authorities have paid more than £1billion to the Treasury since the establishment of the National Assembly for Wales as a result of the Housing Revenue Account Subsidy Scheme.
2. While local authorities contribute to this scheme, private or social landlords do not, and that this has mitigated against continued public sector ownership of

Llafur mewn llywodraeth yng Nghymru a San Steffan ar gost gyson o fwy na £80m y flwyddyn i Gymru, gyda'r arian yn dod o rai o'r grwpiau mwyaf bregus mewn cymdeithas – y rhai sydd angen tai cymdeithasol.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Ar i Drysorlys y DG i roi diwedd ar eu hawliad annheg ar arian a gynhyrchir yng Nghymru dan gynllun nad yw bellach yn bodoli yn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Gyfunol.
2. Am i unrhyw arian a gronnir o ganlyniad i'r Cynllun Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai gael ei ddiogelu yng Nghymru er lles tenantiaid tai cymdeithasol a'r rhai sydd angen tai cymdeithasol o ansawdd.
3. Ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol eraill i wneud popeth posibl i liniaru effeithiau gwaethaf y newidiadau i fudd-daliadau tai, yn enwedig yr aelwydydd mwyaf bregus.

CYLLIDO ÔL-RADEDIGION

(Cymru X)

Noda'r Gynhadledd:

1. Bod 127,000 o fyfyrwyr ar hyn o bryd yn astudio mewn addysg uwch yng Nghymru.
2. O'r 127,000 o fyfyrwyr hynny, fod 28,000 ar hyn o bryd yn astudio am gymhwyster ôl-raddedig.
3. Nad oes ar hyn o bryd fodel benthyciad sydd yn agored i bawb, fel sydd ar gael i astudio am radd gyntaf, i'r myfyrwyr hynny sydd am ddilyn cwrs ôl-radd.
4. Fod llawer o fyfyrwyr yn cymryd benthyciadau datblygu gyrfa gan y sector bancio adwerthu i dalu am astudiaethau ôl-raddedig, ar gyfradd llog masnachol, i'w ad-dalu pan fyddant wedi graddio.

Cred y Gynhadledd:

1. Bod cael benthyciad datblygu gyrfa o rywle heblaw'r banciau ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn anodd dros ben i fyfyrwyr.
2. Bod y diffyg cyfleoedd cyllid yn atal myfyrwyr rhag astudio am radd uwch.
3. Bod yr economi, busnes a chymdeithas yn ogystal â'r myfyriwr yn elwa o astudiaethau ôl-raddedig.
4. Bod diffyg ôl-raddedigion gyda sgiliau mewn rhai pynciau.
5. Bod gweithlu gyda lefel uchel iawn o addysg a sgiliau yn hanfodol i ddatblygiad economaidd Cymru fel cenedl.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Gefnogi creu cronfa ôl-raddedigion ar gyfer benthyciadau astudio ôl-raddedig i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i astudio yng Nghymru, wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru.
2. Byddai ad-daliadau i'r gronfa hon yn cael eu gwneud ar gyfradd llog seiliedig ar chwyddiant yn unig.
3. I sicrhau y bydd myfyrwyr sy'n defnyddio'r gronfa hon yn ad-dalu yn unig pan fyddant mewn gwaith llawn amser.

council housing stock and has contributed to council house stock transfer in Wales.

3. The continuation of this scheme in Wales after revision in England shows a failure of Labour in government in Wales and Westminster at a continued cost of more than £80m per annum to Wales, with these funds drawn from some of the most vulnerable groups in society – those requiring social housing.

Conference calls:

1. For the UK Treasury to end their unfair claim upon the monies generated in Wales under a scheme which does not exist in any other part of the United Kingdom.
2. For any finances accrued as a result of the Housing Revenue Account Subsidy Scheme to be ringfenced in Wales for the benefit of social housing tenants and those in need of quality social housing.
3. On the Welsh Government to work with Local Authorities and other social housing landlords to do everything possible to mitigate the worst effects of the changes to housing benefits, especially on the most vulnerable households.

POSTGRADUATE FUNDING

(Cymru X)

Conference notes:

1. That currently there are 127,000 students studying in higher education in Wales.
2. That of those 127,000 students, 28,000 are currently studying for a postgraduate qualifications.
3. That there is no current open to all loan model, as there is for undergraduate study, available to those students wishing to pursue a postgraduate course.
4. Many students access career development loans from the retail banking sector to fund postgraduate study at a commercial rate of interest, repayable upon graduation.

Conference believes:

1. That accessing non-bank career development loan funding for postgraduate study is exceptionally hard for students.
2. That the lack of funding opportunities deters students from accessing postgraduate study.
3. That the economy, business and society as well as the student benefits from postgraduate study.
4. That, in certain subjects, there is a distinct lack of skilled postgraduates.
5. That a highly educated, highly skilled workforce is essential to the economic development of Wales as a country.

Conference resolves:

1. To support the creation of a postgraduate fund for postgraduate study loans to Welsh domiciled students to study in Wales, funded by the Welsh Government.
2. This fund would be repayable at an interest rate based upon inflation only.
3. To ensure that students who access this fund only repay when they have accessed full time employment.

12.15 CINIO A CHYFARFODYDD YMYLLOL**13.30 Cynigion (Sesiwn 4)****LIBIA**

(Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r Gynhadledd:

1. Bod y Gwrthryfel Arabaidd yng Ngwanwyn 2011 wedi arwain at ymddiswyddiad Llywydd Tiwnisia, Zine El Abidine Ben Ali a Llywydd yr Aifft, Muhammed Hosni Sayyid Mubarek yn dilyn gwrthdystiadau cyhoeddus poblogaidd ac yn bennaf heddychlon.
2. Bod gwrthdystiadau tebyg wedi digwydd ar draws y Dwyrain Canol a Maghreb gan gynnwys yn Bahrain, Syria, Yemen, Iran, Saudi Arabia, Morocco ac Algeria.
3. Bod gwrthryfelwyr yn Libia wedi gwrthdystio yn erbyn Colonel Gaddafi a'i lywodraeth ers Chwefror 2011. Yn dilyn adroddiadau o ataliadau treisiol o'r gwrthryfelwyr, fe fabwysiadwyd Penderfyniad 1973 gan Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig o 10 bleidlais i 0. Caniataodd y penderfyniad i sefydlu ardal ddi-hedfan uwchben Libia a'r gallu i ddefnyddio "pob ffordd bosib" i amddiffyn trigolion.

Noda'r Gynhadledd ymhellach:

1. Bod yr hawl i wrth-dystio yn heddychlon, hawl i ymgynnull a hawl i fynegi barn yn hawliau dynol y dylai pawb allu eu profi.
2. Bod Penderfyniad 1973 yn galluogi amddiffyn trigolion ond nid newid llywodraeth na lladd pennaeth gwladwriaeth, sy'n anghyfreithlon yn ôl cyfraith rhyngwladol.
3. Nad yw Penderfyniad 1973 yn rhoi'r hawl i ddefnyddio milwyr ar y ddaear ac y dylid gwrthwynebu unrhyw gais o'r fath.
4. Dylid trin y ffoaduriaid sydd yn dianc o'r trais gyda pharch ac urddas, a dylid eu cefnogi tan y mae posib iddynt ddychwelyd i'w cartrefi.

Geilw'r Gynhadledd:

1. I'r Deyrnas Gyfunol ddarparu digon o gymorth, buddsodiant a chefnogaeth gwleidyddol i Libia ac unrhyw wlad arall sydd ei angen yn y Dwyrain Canol i wneud yn siŵr y bydd cymuned dinesig yn gallu ailadeiladu'r wlad mewn ffordd ddemocratig, heddychlon a chynaliadwy
2. I'r Cenhedloedd Unedig edrych i mewn i unrhyw dystiolaeth o drosedd rhyfel neu droseddi yn erbyn dynoliaeth ar ochr Colonel Gaddafi a'i filwyr neu ar ochr y gwrthryfelwyr.

TAI FFORDDIADWY

(Etholaeth Ynys Môn)

1. Mae'r gynhadledd yn cydnabod hawliau teuluoedd i gartrefi fforddiadwy.
2. Mae'r gynhadledd hefyd yn condemnio'r diffyg cyfalaf sydd ar gael ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru yn enwedig ar gyfer tai fforddiadwy.
3. Mae'r gynhadledd yn cydnabod yr angen am bolisiau amgen ar gyfer tai fforddiadwy.

12.15 LUNCH AND FRINGE MEETINGS**13.30 Motions (Session 4)****LIBYA**

(European Parliamentary Group)

Conference notes:

1. That the Arab Uprising of Spring 2011 resulted in the President of Tunisia, Zine El Abidine Ben Ali and the President of Egypt, Muhammed Hosni Sayyid Mubarek being removed from office following popular and largely peaceful public protests.
2. That similar protests took place throughout the Middle East and Maghreb including in Bahrain, Syria, Yemen, Iran, Saudi Arabia, Morocco and Algeria.
3. That Libyan rebels have also staged a revolt against Colonel Gaddafi and his government, beginning in February 2011. Following reports of violent suppression of the protestors, the United Nations Security Council passed Resolution 1973 by 10 votes to 0. The resolution sanctioned the establishment of a no-fly zone over Libya and the use of "all means necessary" to protect civilians.

Conference further notes:

1. That the right to peaceful protest, freedom of assembly and freedom of speech are human rights that should be enjoyed by everyone.
2. That UN Resolution 1973 sanctions protection of civilians and not regime change or the killing of the Libyan head of state, which is illegal under international law.
3. UN Resolution 1973 does not permit the use of ground troops and any attempts at such should be opposed.
4. Refugees fleeing the violence should be treated with dignity and respect, and supported until such time as they are able to return to their homeland.

Conference calls on:

1. The UK and EU to provide sufficient aid, investment and political support to ensure that civil society in Libya, and elsewhere where needed across the Middle East, can rebuild the country in a democratic, peaceful and sustainable manner.
2. The United Nations to investigate any evidence of war crimes or crimes against humanity from either Colonel Gaddafi's forces or the rebel forces.

AFFORDABLE HOUSING

(Ynys Môn Constituency)

1. Conference recognises the right of families to affordable homes.
2. Conference also condemns the lack of capital available in the Welsh Government budget, particularly for affordable homes.
3. Conference recognises the need for alternative policies in regard to affordable homes.

4. Mae'r Gynhadledd yn cydnabod y gall rhaglen o adeiladu tai gryfhau economi Cymru.

Felly mae'r gynhadledd yn galw ar lywodraeth Cymru i:

1. Annog cynghorau unedol Cymru a Chyrff Cyhoeddus i ryddhau tir cyhoeddus ar gyfer plotiau hunan adeiladu yn cynnwys ar brydles.
2. Ryddhau arian cyhoeddus drwy ddefnyddio balansau, neu fenthyciadau, i roi benthyciadau dros dro ar gyfer hunan adeiladu ar gyfer prynwyr tro cyntaf.
3. Annog a hwyluso prynwyr y tro cyntaf a thenantiaid tai cyngor a Cymdeithasau Tai i fanteisio ar y cyfle i fod yn berchenogion ar ac yn adeiladwyr eu cartrefi eu hunain.

Gwelliant 1 (Cangen Deudraeth)

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1 dan "Felly mae'r gynhadledd yn galw ar lywodraeth Cymru i" – i deuluoedd lleol yn unig.

SWDAN A DE SWDAN

(Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r Gynhadledd fod dros 98% wedi pleidleisio dros annibyniaeth i wladwriaeth De Swdan yn y Refferendwm ar 09-15 Ionawr 2011; ein bod yn croesawu ymdriniaeth Swdan a De Swdan a'r ymrwymiad a ddangoswyd i Gytundeb Heddwch Cynhwysfawr 2005 sydd yn gam hanfodol i gydfodolaeth heddychlon y ddwy wlad.

Noda'r Gynhadledd yn bellach ei phryder am yr ansefydlogrwydd sydd yn parhau yn Darfur a'r trais yn ardal Abyei sydd yn fygythiad i ddiogelwch bwyd a chael mynediad i iechyd sylfaenol a gwasanaethau dynol.

Geilw'r gynhadledd:

1. I Ogledd a De Swdan i hyrwyddo llywodraeth atebol a democrataidd er budd heddwch, sefydlogrwydd a ffyniant ac i barchu hawliau dynol.
2. Ar awdurdodau De Swdan i gynnal etholiadau rhydd ac i ymgorffori rhyddid, symudiad, cysylltiad a barn, yn y Cyfansoddiad a'r gyfraith.
3. I Swdan a De Swdan i dynnu eu lluoedd arfog o Abyei ac am ddeialog yn ddi-oad ar statws Abyei.
4. i'r Undeb Ewropeaidd i gynnal ei bresenoldeb dyngarol a'i gymorth i Swdan a De Swdan ar ôl annibyniaeth.

Cydnabyddar gynhadledd De Swdan yn wlad annibynnol gan obeithio y bydd hunan-benderfyniad yn dod â heddwch a ffyniant i'w phobl.

14.00 SESIWN TRAFOD

14.30 Ieuan Wyn Jones AC, Arweinydd Plaid Cymru - Araith

15.15 Cynigion (Sesiwn 5)

4. Conference recognises that a house building programme can strengthen the Welsh economy

Conference therefore calls on the Welsh government to:

1. Urge Welsh unitary authorities and public bodies to release public land for self-build plots, including for lease.
2. Release public funds through the use of balances, or borrowing, to provide temporary loans for first-time buyers.
3. Encourage and facilitate first-time buyers and council house and Housing Association tenants to take the opportunity to be owner-occupiers and builders of their own homes.

Amendment 1 (Deudraeth Branch)

Add at the end of point 1 under "Conference therefore calls on the Welsh government to" – for local families only.

SUDAN AND SOUTH SUDAN

(European Parliamentary Group)

Conference notes that over 98% voted for independence for the state of South Sudan in the Referendum on 9-15 January 2011 and welcomes the conduct of both Sudan and South Sudan and the commitment shown to the 2005 Comprehensive Peace Agreement which is a vital step for the peaceful co-existence of both countries.

Conference further notes its concern at the continued instability in Darfur and the violence in the Abyei area which is a threat to food security and access to basic health and human services.

Conference calls:

1. On both North and South Sudan to promote an accountable and democratic government in the interests of peace, stability and prosperity and to respect human rights.
2. On the South Sudan authorities to hold free elections and to enshrine freedom of movement, association and speech, in the Constitution and law.
3. For the withdrawal of Sudanese and South Sudanese armed forces from Abyei and for immediate dialogue on the status of Abyei.
4. For the European Union to maintain its humanitarian presence and assistance for Sudan and South Sudan after independence.

Conference recognises South Sudan as an independent country and hopes that self-determination will bring peace and prosperity to its people.

14.00 DISCUSSION SESSION

14.30 Ieuan Wyn Jones AM, Plaid Cymru Leader - Speech

15.15 Motions (Session 5)

TUAG AT FWY O RYDDID GWYBODAETH, TRYLOYWDER AC ATEBOLRWYDD

(Canghennau Casnewydd)

1. Noda'r Gynhadledd y £56.6 miliwn y dydd a ddyfarnwyd gan glymblaid San Steffan mewn contractau i'r sector breifat yn 2011 a'r amrywiaeth gwerth sy'n cael ei gynnig gan ymwneud y sector preifat mewn cyflwyno gwasanaethau'r sector cyhoeddus.
2. Noda'r Gynhadledd ymhellach fod y sector preifat wedi ei eithrio, i bob pwrpas, rhag pob cais Rhyddid Gwybodaeth.
3. Noda'r Gynhadledd, a chefnoga mewn egwyddor, bolisi clymblaid San Steffan o fwy o dryloywder a phenderfyniad y Gwasanaeth Sifil i roi 'Gwerth am Arian i'r Trethdalwr'.

Geilw'r Gynhadledd felly:

1. Ar grŵp y Blaid yn y Cynulliad i alw yn y Cynulliad am gefnogaeth drawsbleidiol i gyfraith neu gynnig yn mynnu fod pob cwmni preifat sy'n contractio yn uniongyrchol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a/neu sydd yn darparu gwasanaethau mewn meysydd a ddatganolwyd i Gymru, i ddod dan adran 5 Deddf Rhyddid 2000 ac felly gael eu datgan yn wasanaethau cyhoeddus dynodedig, ac o'r herwydd y dylai isadrannau a chydannau incwm y mentrau hyn ddod dan Gyfreithiau Rhyddid Gwybodaeth Cymru a Lloegr.
2. I'r Blaid ymchwilio i weld a fuasai Swyddfa Rhyddid Gwybodaeth Cymru ddynodedig dan reolaeth y Cynulliad yn gwasanaethu buddiannau Cymru yn well.

CYNNIG BRYN 1

CYDRADDOLDEB MEWN PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

(Adran Cydraddoldebau)

Anogwn a chefnogwn berthynas ymrwymedig a sefydlog fel peth da i unigolion ac i les cymdeithas gyfan. Mae dileu camwahaniaethu yn y gyfraith yn ymwneud â pherthynas yn gyson â'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac i alluogi cyplau i ymrwymo i'w gilydd ac i ymgeleddu ei gilydd. I'r perwyl hwn, yr ydym yn cefnogi deddfwriaeth i roi terfyn ar y ddau waharddiad cyfreithiol ar briodasau sifil rhwng dau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil rhwng dau o rywiau gwahanol. Mewn cymdeithas ddemocrataidd, dylai priodasau sifil a phartneriaethau sifil mewn swyddfeydd cofrestru fod yn agored i bob cwpl, o'r un rhyw ac o rywiau gwahanol, yn ddiwahân.

15.40 CYNIGION MEWNOL AC HUSTYNGAU

TOWARDS GREATER FREEDOM OF INFORMATION, TRANSPARENCY AND ACCOUNTABILITY

(Newport Branches)

1. Conference notes the Westminster coalition's £56.6 million per day in contracts awarded to the private sector in 2011 and the variable value offered by private sector involvement in public sector service delivery.
2. Conference notes furthermore the private sector's exemption, in practice, from all Freedom of Information requests.
3. Conference notes and supports in principle the Westminster coalition's policy of enhanced transparency and the civil service's determination to bring 'Taxpayer Value For Money'.

Conference calls therefore:

1. On the Plaid Assembly group to call in the Assembly for all party support for a law or motion requesting that all private companies directly contracted by the public sector in Wales, and/or providing services in areas devolved to Wales, to be subject under section 5 of the Freedom of Information Act 2000 to be declared designated public services and as such divisions and income components of these enterprises to be subject to the Freedom of Information Laws of England and Wales.
2. For Plaid to explore whether a designated Assembly controlled Welsh Freedom of Information Office would better serve the interests of Wales.

EMERGENCY MOTION 1

EQUALITY IN MARRIAGE AND CIVIL PARTNERSHIP

(Equalities Section)

We encourage and support committed, stable relationships as being good for individuals and for the well-being of society as a whole. The elimination of discrimination in relationship law is consistent with our commitment to equality and to enabling couples to sustain enduring care and commitment to each other. To this end, we support legislation to end the twin legal bans on same-sex civil marriages and opposite-sex civil partnerships. In a democratic society, civil marriages and civil partnerships in register offices should be open to all couples, same-sex and opposite-sex, without discrimination.

15.40 INTERNAL MOTIONS AND HUSTINGS

DEFNYDD YR IAITH GYMRAEG

(Etholaeth Arfon)

Mae'r Gynhadledd yn llongyfarch Plaid Cymru ar yr hyn a gyflawnodd dros yr iaith Gymraeg fel rhan o lywodraeth Cymru'n Un, yn cynnwys Deddf Iaith gref, Comisiynydd Iaith, Coleg Cenedlaethol Gymraeg, Strategaeth Addysg Gymraeg a gwasanaeth newyddion dyddiol Gymraeg ar-lein. Gan fod defnydd cyhoeddus o'r iaith yn rhan hollbwysig o'n cenhadaeth fel plaid, mae'r Gynhadledd yn pwysu ar holl aelodau Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio'r iaith ar bob cyfle posib yng ngweithgaredd y Cynulliad.

CLYMBLAID

(Cangen Penarth)

Mae Cangen Penarth yn annog Plaid Cymru i beidio â bod yn rhan o unrhyw drefniadau clymblaid ffurfiol neu anffurfiol gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor cynulliad hwn a'i bod yn rhoi gwrthwynebiad cadarn ac effeithiol er budd Cymru.

Gwelliant 1 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol)

Dileer y geiriau 'Plaid Cymru i beidio â' a rhoi yn eu lle ' Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau caniatâd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Cenedlaethol cyn', a dileer y geiriau 'a'i bod yn' a rhoi yn eu lle 'ac yn y cyfamser i fod yn'.

TÂL AELODAETH

(Cangen Glanrafon a Pontcanna)

Argymhella'r Gynhadledd:

- 1) Er mwyn denu aelodau newydd i ymuno â'r Blaid ac i gadw aelodau presennol rydym yn cynnig bod yna ddewis o dal aelodaeth blynyddol gostyngol i rhai sydd ar incwm isel (incwm cyflog/ blynyddol o lai na £18,000) Dylai'r tâl aelodaeth fod yn £15.00 y flwyddyn. Byddai dewis o dâl aelodaeth di-gyflog yn parhau.
- 2) Dylai hyn fod yn cael ei weithredu am gyfnod o flwyddyn gan gychwyn yn 2012 a chael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwaith o fewn chwe mis i'r penderfyniad gael ei wneud wedi archwilio i sefyllfa gyllid y Blaid a nifer yr aelodau o ganlyniad i'r newid hwn.

CANLYNIADAU'R ETHOLIAD

(Etholaeth Llanelli)

Llongyfarcha'r Gynhadledd Blaid Genedlaethol yr Alban ar eu llwyddiant yn Etholiad Cyffredinol yr Alban.

USE OF THE WELSH LANGUAGE

(Arfon Constituency)

Conference congratulates Plaid Cymru on its achievements for the Welsh language as part of the One Wales government, including a strong Language Act, a Language Commissioner, the Coleg Cenedlaethol Gymraeg, Welsh-Medium Education Strategy and the daily online Welsh news service. Since public use of the language is a vital part of our mission as a party, Conference urges all Welsh-speaking Plaid Cymru members in the National Assembly to use the language on all possible occasions in Assembly activities.

COALITION

(Penarth Branch)

Penarth Branch urges Plaid Cymru not to enter into any formal or informal coalition arrangements with the Welsh Government for the duration of this Assembly term and instead to provide robust and effective opposition for the benefit of Wales.

Amendment 1 (National Assembly Group)

Delete the words 'not to enter' and replace with 's Group in the National Assembly to seek the approval of the National Executive and National Council before entering' and delete the word instead and replace with 'in the meantime'.

MEMBERSHIP FEE

(Riverside and Pontcanna Branch)

Conference recommends:

- 1) In order to attract new members to join Plaid and retain existing ones, we propose that the annual membership form gives the option of a reduced fee for members who receive a low income (members who are on an income less than £18,000 a year). We suggest a membership fee of £15.00 a year. The unwaged option would remain.
- 2) This could be implemented for a year commencing in 2012 and reviewed by the Pwyllgor Gwaith within six months of the implementation having looked at the changes and how they affect the financial situation of Plaid's membership funds and numbers.

ELECTION RESULTS

(Llanelli Constituency)

Conference congratulates the Scottish National Party on their success in the Scottish General Election.

Cred y Gynhadledd mai ffactor allweddol a alluogodd yr SNP i gipio seddi Llafur traddodiadol oedd ymrwymiad yr SNP i beidio â rhoi'r Ceidwadwyr mewn llywodraeth yng Nghaeredin.

Noda'r Gynhadledd ei bod yn hanfodol i Blaid Cymru ennill ac adennill seddi sydd yn draddodiadol wedi eu dal gan Lafur os ydym am ddod yn blaid fwyafrifol ac ennill mandad y bobl i lywodraethu.

Penderfyna'r Gynhadledd na fydd Plaid Cymru yn cefnogi cynnwys yng nghabinet Llywodraeth Cymru unrhyw Aelod Ceidwadol o'r Cynulliad Cenedlaethol, na rhoi rheolaeth dros unrhyw ran o gyllideb Llywodraeth Cymru i unrhyw AC Ceidwadol.

Gwelliant 1 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol / Etholaeth Ynys Môn)

Dileu popeth ar ôl y paragraff cyntaf ac ychwanegu:

Geilw'r Gynhadledd ar i Adolygiad y Blaid a sefydlwyd gan y Pwyllgor Gwaith i weld pa wersi y gellid eu dysgu o lwyddiant yr SNP ac i ystyried pa ran a chwaraewyd gan safbwynt y Blaid ar glymbleidio ar ganlyniadau etholiad cyffredinol Cymru 2011. Gofynnir i'r adolygiad gyflwyno cynigion penodol i'w ystyried gan y Cyngor Cenedlaethol.

HUSTYNGAU: CADEIRYDD A CYFARWYDDYDD TREFNIADAETH

16.30 CYFARFODYDD YMYLLOL

Conference believes that a key factor in enabling the SNP to take traditional Labour seats was the SNP commitment not to put Conservatives into government in Edinburgh.

Conference notes the imperative for Plaid Cymru to take and re take seats traditionally held by Labour if we are to become the largest Party and win the people's mandate to govern.

Conference resolves that Plaid Cymru will not support the inclusion in the cabinet of the Welsh Government of any Conservative Member of the National Assembly, nor the handing of control of any part of the budget of the Welsh Government to any Conservative AM.

Amendment 1: National Assembly Group

Delete everything after the first paragraph and replace with:

Conference calls on the Party Review set up by the National Executive to see what lessons can be learnt from the SNP's success and impact the party's position on coalitions had on the results of the Welsh general election in 2011. The Review team is asked to present its recommendations to National Council.

HUSTINGS: CHAIR AND DIRECTOR OF ORGANISATION

16.30 FRINGE MEETINGS

Amserlen Cynhadledd Flynyddol 2011

Dydd Sadwrn

09.30 Cynigion (Sesiwn 6)

STELCIAN

(Grŵp San Steffan)

Noda'r Gynhadledd:

1. Y bydd 1 o bob 5 o bobl yn cael profiad o stelcian yn y DG yn ystod eu bywyd a bod tua phum miliwn o bobl yn cael eu stelcian mewn unrhyw un flwyddyn.
2. Noda'r Gynhadledd hefyd, er bod aflonyddu yn cael ei ddiffinio yn Neddf Gwarchod rhag Aflonyddu (1997), nid yw stelcian wedi ei ddiffinio, sy'n ei gwneud yn anodd cael rhywun yn euog o stelcian.
3. Dengys ystadegau i ryw 53,000 digwyddiad o stelcian ac aflonyddu gael eu cofnodi gan yr heddlu yn y DG yn 2010, ond mai dim ond 2.2% o'r achosion hyn a arweiniodd at ddedfryd o garchar.

Cydnebydd y Gynhadledd ymhellach:

1. Fod amlygrwydd cynyddol y rhyngryd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol yn gwneud seibr-stelcian yn fygythiad gwirioneddol i filiynau posibl o bobl fregus. Nid yw seibr-stelcian ar hyn o bryd yn dod dan gyfraith y DG.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Am i gyfraith sylwedd yng Nghymru a Lloegr gael ei hadolygu, yn ogystal ag unrhyw newidiadau i arferion a chanllawiau dedfrydu.
2. Am i raglenni triniaeth fod ar gael i'r sawl sy'n gwneud hyn er mwyn lleihau'r perygl o ailddosedd.
3. Ar i hyfforddiant fod ar gael i'r heddlu a'r Gwasanaeth Prawf am sut i ddelio â dioddefwyr stelcian a'r rhai sydd yn stelcian.

YNNI NIWCLEAR AC YNNI ADNEWYDDADWY

(Canghennau Casnewydd / Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r gynhadledd:

1. Canlyniadau trychinebus y daeargryn a'r tswami yn Siapan a arweiniodd at sefyllfa beryglus yng ngorsaf niwclear Fukushima, sef fod y tanwydd yn yr adweithyddion wedi cynhyrchu lefelau uchel o wres ac arwain at doddiad llwyr ac achosi gollyngiad o ddeunydd ymbelydrol.
2. Bod y digwyddiad yn Fukushima, a ddigwyddodd 25ain o flynyddoedd ar ôl damwain Chernobyl, yn cynyddu'r pryderon am ddiogelwch ynni niwclear.
3. O ganlyniad i'r digwyddiad, fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig arbrofion straen i bob adweithydd niwclear.
4. O ganlyniad, mae'r Almaen wedi cyhoeddi y bydd pob gorsaf niwclear yn y wlad yn cael ei diddymu erbyn 2022. Mae'r Swistir hefyd wedi ymroddi i ddiddymu ynni niwclear erbyn 2034.

Annual Conference Timetable 2011

Saturday

09.30 Motions (Session 6)

STALKING

(Westminster Group)

Conference notes:

1. That 1 in 5 people will experience stalking in the UK in their lifetime and that approximately five million people experience stalking in any given year.
2. Conference also notes that although harassment is defined in the Protection from Harassment Act (1997), stalking is not, making it difficult to convict someone of stalking.
3. Statistics show that in 2010 53,000 incidents of stalking and harassment were recorded by the police in the UK but that only 2.2% of these cases resulted in a custodial sentence.

Conference further recognises:

1. That the increasing dominance of the internet for social networking makes cyber stalking a very real threat to potentially millions of vulnerable people. Cyber stalking is not currently covered by UK law.

Conference calls:

1. For the substantive law in England and Wales to be reviewed, as well as any changes to sentencing practices and guidelines.
2. For treatment programmes to be made available for perpetrators so as to lessen the threat of reoffending.
3. For training to be available for police and the Probation Service on how to deal with victims and perpetrators of stalking.

NUCLEAR ENERGY AND RENEWABLE ENERGY

(Newport Branches / European Parliamentary Group)

Conference notes:

1. The tragic consequence of the earthquake and tsunami in Japan which led to the dangerous situation at the Fukushima nuclear power plant, namely that fuel in the reactors produced considerable amounts of heat which led to a full meltdown, causing radioactive material to leak.
2. That the incident at Fukushima, occurring on the 25th anniversary of Chernobyl, heightens concerns for the safety of nuclear energy.
3. That as a result the European Commission has proposed stress tests on all current nuclear reactors.
4. That as a result, Germany has announced that all the country's nuclear power plants will be phased out by 2022. Switzerland has also committed to phasing out nuclear power by 2034.

Noda'r gynhadledd ymhellach:

1. Egwyddor hanfodol annibyniaeth ynni, o gadw mewn cof uchelgais tymor-hir y Blaid am sofraniaeth ddatganoledig ac annibyniaeth.
2. Fel allforiwr net ynni gydag adnoddau ynni adnewyddol posibl enfawr heb eu datblygu, nad oes angen datblygiadau niwclear yng Nghymru yn y tymor hir i ateb y galw am ynni.
3. Bod cost y KW o gynhyrchu rhai ffurfiau ar ynni adnewyddol yn is na niwclear.
4. Nad yw costau tymor hir datgomiysnu niwclear wedi eu gweithio allan.
5. Tystiolaeth profedig am effeithiau allyriadau carbon tuag at newid hinsawdd trychinebus, ac hefyd y pwysau cynyddol ar adnoddau tanwydd ffosil, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn prisiau wrth i ni gyrraedd pegwn cynhyrchu tanwydd ffosil.
6. Y bydd polisiau'r llywodraeth glymblaid bresennol am lawr pris carbon yn y tymor byr yn codi prisiau tanwydd i ddefnyddwyr ac yn golygu mai'r diwydiant niwclear fydd yn elwa fwyaf o bell ffordd, a hefyd felly yn methu manteisio ar y buddsoddiad posibl mewn ynni adnewyddol a allai ddeillio o amrywiadau ar y ddeddfwriaeth hon.

Ail-gadarnha'r gynhadledd:

1. Cred Plaid Cymru y dylid datganoli pob penderfyniad ar ynni yn llawn i Gymru.
2. Llwyfwrthwynebiad Plaid Cymru i unrhyw orsaf niwclear newydd.

Geilw'r gynhadledd:

1. I'r Blaid ar bob lefel wrthwynebu yn swyddogol brosiectau niwclear newydd ar y sail, heb sôn am y peryglon, nad oes eu hangen at ddibenion ynni Cymru.
2. I'r Blaid ar bob lefel lobbio llywodraeth glymblaid San Steffan i ailstrwythuro'r ddeddfwriaeth Llawr Pris Carbon er mwyn eithrio ynni niwclear rhag derbyn unrhyw fath o gymorthdal cyhoeddus.
3. I arbrofion straen yr Undeb Ewropeaidd gael eu cyflawni gan arbenigwyr annibynnol gan ddefnyddio meini prawf cadarn.
4. I Blaid Cymru groesawu penderfyniad yr Almaen i ddiddymu eu holl gorsafoedd niwclear ac i hybu llywodraethau eraill ar draws y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, i wneud yr un peth.
5. Am fwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn ynni adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni.

Gwelliant 1 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol / Etholaeth Ynys Môn)

Ychwanegu at baragraff 2 o dan nodi ymhellach 'Mae angen mwy o fuddsoddiad er mwyn datblygu potensial technolegau tonnau a llanw a allai wedi'i fasnacheiddio arwain i Gymru fod yn fwy hunan gynhaliol mewn ynni adnewyddol.

Gwelliant 2 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol / Etholaeth Ynys Môn)

Ar ddiwedd paragraff 2 ar ôl Ail Gadarnha'r Gynhadledd, ychwaneger 'os yw llywodraeth San Steffan yn rhoi caniatâd i orsaf newydd yn yr Wylfa, dylem sicrhau'r angen i gyflogi pobl leol, buddsoddi mewn hyfforddiant i facsimeiddio cyflogaeth leol, ac i sicrhau fod cwmnïau cynhenid yn elwa o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi.

Conference further notes:

1. The essential principle of energy independence given Plaid's long term ambition for devolved sovereignty and independence.
2. That as a net exporter of energy with massive undeveloped renewable energy potential new nuclear developments are not required in Wales in the long term in order to meet energy demand.
3. That cost per KW of production for some forms of renewable power generation are lower than nuclear.
4. That the long term costs of nuclear decommissioning are not calculated.
5. The proven evidence of the effect of carbon emissions towards catastrophic climate change, also the growing pressure on fossil fuel resources including significant commodity price escalation as we approach peak fossil fuel production.
6. That the current coalition government's policies on the carbon price floor will serve in the short term to raise consumer fuel bills and will leave the nuclear industry by the far the biggest beneficiary and also therefore fail to optimise the potential investment in renewable energy that variants of this legislation could bring.

Conference reaffirms:

1. Plaid Cymru's belief that all energy decisions should be devolved in full to Wales.
2. Plaid Cymru's total opposition to the construction of any new nuclear power stations.

Conference calls:

1. For Plaid at all levels to officially oppose new nuclear projects on the basis that even apart from the risks they are superfluous to Wales' energy needs.
2. For Plaid at all levels to lobby the coalition Westminster government to restructure Carbon Price Floor legislation in order to exempt nuclear power from receiving any form of public funded subsidy.
3. For the EU's nuclear stress tests to be carried out by independent experts and to be based on robust criteria.
4. On Plaid Cymru to welcome Germany's decision to phase out all nuclear power stations and to encourage other governments across the world, including the United Kingdom, to follow their lead.
5. For greater investment by the Welsh government in renewables and energy efficiency measures.

Amendment 1 (National Assembly Group / Ynys Môn Constituency)

Add to paragraph 2 under further notes 'Further investment is required into developing the potential of wave and tidal technologies which when commercialised could lead to Wales becoming more self sufficient in renewable energy.

Amendment 2 (National Assembly Group / Ynys Môn Constituency)

At the end of paragraph 2 after Conference reaffirms, add 'if the Westminster government gives the go ahead for a new nuclear power station at Wylfa, we should make sure that the investment recognises the need to employ local people, invest in training to maximise local employment and make sure that indigenous companies benefit from supply chain opportunities.

Gwelliant 3 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol / Etholaeth Ynys Môn)

Dileu cymal 1 yn y paragraff Geilw'r Gynhadledd.

Gwelliant 4 (Etholaeth Ynys Môn)

Ar ddiwedd paragraff 3 o dan Noda'r Gynhadledd, ychwaneger 'ac mae llywodraeth y DG wedi galw ar y Prif Archwilydd Niwclear i gynnal adolygiad o osodiadau niwclear'.

TAI, CYNLLUNIO LLEOL A LLYWODRAETH CYMRU

(Cangen Wrecsam)

Mae'r Gynhadledd yma'n cydnabod anniddigrwydd cynyddol o fewn cymunedau a chynghorau ledled Cymru ynglyn a'r pwysau sy'n cael ei roi ar gynghorau wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol gan ddefnyddio rhagamcaniaethau poblogaeth Llywodraeth Cymru. Y teimlad ar lawr gwlad yw fod y rhagamcaniaethau yma'n gwthio'r nifer o dai yn y Cynlluniau uwchben anghenion lleol.

Geilw'r Gynhadledd yma ar Lywodraeth Cymru:

1. I ail-ystyried y drefn yma o orfodi cynghorau i godi mwy o dai na'r angen lleol.
2. I wrthod Gynlluniau Datblygu Lleol sy'n rhoi blaenoriaeth ar ddadleuon datblygwyr ar draul anghenion cymunedau lleol.

Ymhellach, mae'r Gynhadledd yn cefnogi bwriad i greu ymgyrch genedlaethol o gymunedau i wrthwynebu gor-ddatblygu.

DIWYGIO DEDFRYDU

(Grŵp San Steffan)

Noda'r Gynhadledd:

1. Yr angen i gywiro nifer o anghysonderau mewn dedfrydu sydd ar hyn o bryd yn golygu bod troseddwyd yn cael dedfrydau sy'n anaddas i'r drosedd a gyflawnwyd ganddynt ac nad ydynt yn nes ymlaen yn ystyried y cynnydd y gall yr unigolion hynny wneud yn ystod eu cyfnod yn y carchar.
2. Oherwydd newidiadau i Ddeddf Trosedd (Dedfrydau) (1997), gall unigolyn sydd dan ddedfryd amhenodol er gwarchod y cyhoedd ar hyn o bryd gael ei hystyried ar gyfer rhyddhau yn gynnar wedi i hanner yn unig o'r ddedfryd honno gael ei threulio. Mae'r sawl a dderbyniodd ddedfrydau AGC ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn gymwys i'w rhyddhau yn gynnar, os ydynt wedi dilyn rhaglenni rheoli trosedd yn y carchar neu beidio, sydd yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor beryglus yn union ydynt i'r cyhoedd.
3. Ymhellach, ers 2005, mae'r rhai sydd ar ddedfrydau penodol o bedair blynedd neu fwy wedi eu rhyddhau yn awtomatig wedi treulio hanner eu dedfryd.

Cydnebydd y Gynhadledd:

1. Y dylai dedfrydwyd a'r llysoedd gael mwy o ryddid i osod y dedfrydau sydd yn eu barn hwy yn addas ac sy'n cymryd i ystyriaeth amgylchiadau unigol pob

Amendment 3 (National Assembly Group / Ynys Môn Constituency)

Delete point 1 in the paragraph Conference calls.

Amendment 4 (Ynys Môn Constituency)

At the end of paragraph 3 under Conference notes add, 'and the UK government has called on the Chief Nuclear Inspector to carry out a review of nuclear installations'.

HOUSING, LDPs AND THE WELSH GOVERNMENT

(Wrexham Branch)

This Conference recognises the growing anger in communities and councils across Wales regarding the pressure being put on local authorities while developing Local Development Plans because of the use of Welsh Government population projections. The feeling at community level is that these projections are pushing the numbers of houses being permitted in the LDPs beyond local need.

This Conference calls on the Welsh Government to:

1. Scrap the population projections and re-assess the system of forcing councils to build more houses than needed locally.
2. Refuse to accept LDPs that give priority to developers at the expense of local communities.

Conference further supports a move to create a national campaign to mobilise communities opposed to over-development.

SENTENCING REFORM

(Westminster Group)

Conference notes:

1. The need to correct a number of anomalies in sentencing which currently result in perpetrators of crimes being handed sentences which are inappropriate to the crime they have committed and do not later take regard of the progress these individuals might make during their time in prison.
2. Because of changes to the Crime (Sentences) Act (1997), a person serving an indeterminate sentence for public protection can currently be considered for early release after serving only half of that sentence. Persons convicted of IPP sentences are currently considered eligible for early release regardless of whether they have undergone offender management programmes while in prison, making it difficult to verify the risk they pose to the public.
3. Furthermore, since 2005, those serving determinate sentences of four years or more have been automatically released after serving half of their sentence.

Conference recognises:

1. That sentencers and courts should be given greater freedom to impose the sentences they deem fit which take regard of the individual circumstances

achos. Byddai hyn yn cynnwys datgan uchafswm y cyfnod i'w dreulio gan unrhyw droseddwr yn ogystal â'r isafswm, fel sy'n digwydd fel arfer ar hyn o bryd.

2. Fod rhaglenni rheoli trosedd perthnasol â rhan hanfodol mewn adsefydlu troseddwr ac y gallant leihau cryn dipyn at y perygl y bydd pobl yn aildroseddu.

Noda'r Gynhadledd ymhellach:

1. Bod unigolion 18 oed neu hŷn sydd yn cyflawni rhai troseddau treisgar neu rywiol ar hyn o bryd yn cael dedfryd estynedig.
2. Y cred llawer o ddedfrydwyr, fodd bynnag, mewn achos lle bo rhywun wedi cyflawni trosedd ddifrifol ac wedyn wedi derbyn diagnosis o broblemau seicolegol neu seiciatryddol difrifol, mai cyfnod estynedig ar drwydded fuasai'n fwy priodol. Nid yw gosod gorchmynion ysbyty ar hyn o bryd ar gael i ddedfrydwyr.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Am newid y ddeddfwriaeth fel y gellir adolygu dedfryd rhywun sydd ar ddedfryd amhenodol er gwarchod y cyhoedd (dedfrydau AGC) gan y Bwrdd Parôl o leiaf bob dwy flynedd.
2. I bawb sydd ar ddedfrydau AGC allu mynd ar raglenni rheoli trosedd perthnasol.
3. I'r Bwrdd Parôl gadw mewn cof a yw'r cyfryw raglenni ar gael ac a gawsant eu cwblhau wrth bennu a ddylid argymhell bod rhywun i'w ryddhau ar drwydded neu beidio.
4. Am ymgynghori â'r Bwrdd Parôl cyn i rywun sydd ar ddedfryd benodol o bedair blynedd neu fwy gael ei ryddhau, fel y gallant fod yn fodlon nad yw'r unigolyn yn cynrychioli llawer o berygl i'r cyhoedd ac nad yw'n debygol iawn o aildroseddu.

Geilw'r Gynhadledd ymhellach:

1. Am ddiwygio canllawiau dedfrydu fel, pan fydd llys yn dedfrydu rhywun i ddedfryd benodol o garchar, y bydd yn dweud beth yw uchafswm y cyfnod i'w dreulio. Dylai'r llys hefyd ddweud beth fydd isafswm y cyfnod i'w dreulio dan glo. Rhaid i isafswm y tymor a ddatgenir fod yn llai na hanner uchafswm y ddedfryd ond heb fod yn llai na thraean o'r ddedfryd honno.
2. Wrth bennu a ddylid gosod tymor goruchwyllo estynedig, y dylai'r llys cadw mewn cof unrhyw asesiad seicolegol neu seiciatryddol a wneir yn dilyn cyflawni'r drosedd yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn cyflawni mwy o droseddau difrifol tebyg.

10.30 Elin Jones AC, Cyfarwyddyd Cyfathrebu - Araith

10.45 Cynigion (Sesiwn 7)

surrounding each case. This would include setting out the maximum term that shall be served by any offender as well as the minimum term, as is common practice now.

2. That relevant offender management programmes play a vital role in the rehabilitation of offenders and can greatly reduce the risk of perpetrators of crimes reoffending.

Conference further notes:

1. That persons of 18 years or older who commit certain violent or sexual offences are currently given an extended sentence.
2. Many sentencers, however, argue that in cases where a person has committed a serious crime and has subsequently been diagnosed with psychological or psychiatric problems an extended period of licence would be more appropriate. Disposals of hospital orders are not currently available to sentencers.

Conference calls:

1. For changes to be made to legislation so that a person serving an indeterminate sentence for public protection (IPP sentences) should have his or her sentence reviewed by the Parole Board at least every two years.
2. For all persons serving IPP sentences to be given access to relevant offender management programmes.
3. For the Parole Board to have regard to the availability and completion of said programmes when determining whether to recommend a person for release on licence.
4. For the Parole Board to be consulted before a person serving a determinate sentence of four years or more is released, so that they can be satisfied as to whether the individual is at low risk of harm to the public and low risk of reoffending.

Conference further calls:

1. For sentencing guidelines to be amended so that when sentencing a person to a determinate prison sentence the court shall state the maximum time that shall be served. The court shall also state the minimum term that shall be served. The stated minimum term must be less than half the maximum sentence but no less than one-third of that sentence.
2. That, when determining whether to impose extended supervision, a court shall have regard to any psychological or psychiatric assessment that is carried out following the commission of the offence as well as the likelihood of the person being involved in further similar serious offending.

10.30 Elin Jones AM, Director of Communications - Speech

10.45 Motions (Session 7)

POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN

(Grŵp Seneddol Ewropeaidd)

Noda'r Gynhadledd:

1. Y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno darpar ddeddfwriaeth ar gyfer ffurf y PAC ar ôl 2013 yn gynnar yn 2012.
2. Bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn lloio yr Undeb Ewropeaidd i ddod â thaliadau uniongyrchol i ben ac i leihau'r gyllideb ar gyfer amaeth.
3. Bod 80% o ffermwyr Cymru yn dibynnu ar daliadau uniongyrchol i gynnal eu bywoliaeth.
4. Bod cyn Weinidog Materion Gwledig, Elin Jones, Plaid Cymru, eisioes wedi ysgrifennu i'r Comisiynydd Ewropeaidd sy'n gyfrifol am Amaeth i egluro'r gwahaniaeth rhwng safbwynt llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru.

Ail-atega'r Gynhadledd:

1. Ymroddiad blaenorol Plaid Cymru i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r PAC ar ôl 2013 yn gwanhau economi wledig Cymru ac y bydd yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol sy'n angenrheidiol i gefn gwlad llewyrchus a chynhaliadwy.

Geilw'r Gynhadledd:

1. I gyllid amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd fod o leiaf yr un swm o 2013 ymlaen.
2. I daliadau uniongyrchol barhau.

Geilw'r Gynhadledd ymhellach:

1. Am unrhyw newidiadau i'r PAC i annog ffermwyr ifanc i ymuno â'r diwydiant.

ANNIBYNAETH I GYMRU YN EWROP

(Cangen Treganna a Llandaf / Etholaeth Caerffili / Cangen Pontllanffraith a Maesycwmer)

1. Ailddatgana'r gynhadledd ei chefnogaeth dros annibyniaeth i Gymru yn Ewrop.
2. Er mwyn egluro safiad cyfansoddiadol y blaid, cytuna'r Gynhadledd i ddileu paragraff 2.1 o'r cyfansoddiad a mewnosod: "ennill annibyniaeth i Gymru yn Ewrop."

CYNNIG BRYD 2**11.30 SESIWN TRAFOD****12.15 CINIO A CYFARFODYDD YMYLOL****13.30 Dafydd Wigley - Araith****13.40 SESIWN TRAFOD****14.30 Elfyn Llwyd AS, Arweinydd San Steffan - Araith****14.45 SESIWN TRAFOD****15.00 Cynigion (Sesiwn 8)****COMMON AGRICULTURAL POLICY**

(European Parliamentary Group)

Conference notes:

1. That the European Commission will present legislative proposals for the next round of the Common Agricultural Policy from 2013 at the beginning of 2012.
2. That the UK government has been lobbying the EU to end direct payments to farmers and to cut the agriculture budget.
3. That 80% of Welsh farmers are dependent on direct payments to maintain their livelihoods.
4. That former Rural Affairs Minister Elin Jones, Plaid Cymru, has already written to the European Commissioner for Agriculture pointing out the difference between the UK government and the Welsh government's positions.

Conference reaffirms:

1. Plaid Cymru's previous commitment to making sure that any changes to the CAP post 2013 will not weaken Wales' rural economy and will secure environmental improvements which are essential for a thriving and sustainable countryside.

Conference calls:

1. For the EU agriculture budget to be at least maintained post 2013.
2. For direct payments to farmers to be maintained.

Conference further calls:

1. For any changes to the CAP to encourage the entry of young farmers into the industry.

INDEPENDENCE FOR WALES IN EUROPE

(Canton and Llandaf branch / Caerffili Constituency / Pontllanffraith and Maesycwmer Branch)

1. Conference reaffirms its support for independence for Wales in Europe.
2. In order to clarify the party's constitutional stance, conference agrees to delete paragraph 2.1 of the constitution and insert: "secure independence for Wales in Europe."

EMERGENCY MOTION 2**11.30 DISCUSSION SESSION****12.15 LUNCH AND FRINGE MEETINGS****13.30 Dafydd Wigley - Speech****13.40 DISCUSSION SESSION****14.30 Elfyn Llwyd MP, Westminster Leader - Speech****14.45 DISCUSSION SESSION****15.00 Motions (Session 8)**

GOFALWYR

(Etholaeth Llanelli)

Cydnebydd y Gynhadledd y cyfraniad enfawr a wneir gan ofalwyr di-dâl, nid yn unig i'r sawl y maent yn gofalu amdanynt ond hefyd i'r gymuned yn ehangach. Cydnebydd y Gynhadledd ymhellach fod y cyfraniad hwn yn aml yn cael ei wneud ar gryn draul i les y gofalwyr eu hunain.

Llongyfarcha'r Gynhadledd Lywodraeth flaenorol Cymru am basio'r Mesur Hawliau Gofalwyr.

Geilw'r Gynhadledd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r arian sydd ar gael i weithredu'r mesur, ac i sicrhau fod pob maes o lunio polisi'r llywodraeth yn hybu lles gofalwyr.

Geilw'r Gynhadledd ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y gwarchodir lles gofalwyr ifanc ac y caiff ei hybu, yn enwedig yn y system addysg.

Geilw'r Gynhadledd ar lywodraeth San Steffan i ystyried effaith negyddol ei pholisiau presennol, yn enwedig o ran budd-daliadau, ar ofalwyr di-dâl. Mae angen i lywodraeth San Steffan gydnabod pwysigrwydd economaidd enfawr gwaith gofalwyr, ac i symud tuag at gydnabod y cyfraniad hwnnw trwy roi i ofalwyr becyn cynnal gan gynnwys lwfans sy'n cyfateb i'r isafswm cyflog, gofal seibiant go-iawn, a chyfraniadau pensiwn.

CYNNIG BRYD 3**DIOGELWCH BWYD**

(Canghennau Casnewydd)

Noda'r Gynhadledd

1. Natur ansefydlog y farchnad nwyddau bwyd a'r cynnydd mewn prisiau bwyd ac effaith andwyol hyn ar bobl Cymru.
2. Diffyg blaengynllunio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer darparu diogelwch bwyd, yn enwedig wrth i ni ddynesu at neu basio pegwn cynhyrchu olew.

Geilw'r Gynhadledd felly:

Ar i'r Blaid gynnig cyfreithiau a mesurau a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob Awdurdod Unedol gynnwys gwir gamau blaengynllunio am ddiogelwch bwyd yn eu CDLI ac y dylai'r cyfryw gamau gynnwys y canlynol:

1. Digon o leiniau rhandiroedd y pen.
2. Rhannu tir ar raddfa effeithiol i dyfu bwyd yn lleol gan drigolion lleol ac er eu mwyn, gyda'r cynydu sydd weddill yn cael eu gwerthu i rwydwaith drosbarthu effeithiol trwy fentrau cydweithredol lleol ar sail y bunt werdd.

CARERS

(Llanelli Constituency)

Conference recognises the enormous contribution made by unpaid carers' not only to the well being of those they care for but also to the wider community. Conference further recognises that this contribution is too often made at considerable detriment to the well being of the carers themselves.

Conference congratulates the previous Welsh Government for passing the Carers Rights Measure.

Conference calls on the Welsh Government to ring-fence the funds being made available to implement the measure, and to ensure that all areas of government policy making promote the well being of carers.

Conference further calls on the Welsh Government to ensure that the wellbeing of young carers is protected and promoted particularly within the education system.

Conference calls on the Westminster Government to consider the negative impact that its current policies, particularly with regard to benefits, will have on unpaid carers. The Westminster Government needs to recognise the huge economic importance of the work that carers do and to move towards recognising that contribution by providing carers with a support package including an allowance on a par with the minimum wage, proper respite care, and pension contributions.

EMERGENCY MOTION 3**FOOD SECURITY**

(Newport Branches)

Conference Notes

1. The unstable nature of the Food Commodity Market and the upward escalation of food prices and the detrimental effect of this upon the Welsh People.
2. The lack of forward planning within Local Development Plans (LDPs) for the provision of food security especially as we approach or pass peak oil production.

Conference calls therefore:

For Plaid to propose laws and measures that will make it obligatory for all Unitary Authorities to include genuine forward planning measures for food security in their LDPs and that such measures include

1. Sufficient allotment plot numbers per capita.
2. Landshare on an effective scale for the localised growing of food by and for local residents with excess crops sold into an effective distribution network via local co-ops based on the green pound.

CEFNOGI MYFYRWYR CYMREIG

(Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe, Gŵyr, Cymru X)

Noda'r Gynhadledd:

1. Na fydd pobl Cymru fyth yn anghofio mai llywodraeth Lafur a gyflwynodd ffioedd dysgu mewn addysg uwch ac mai'r llywodraeth Lafur flaenorol yn San Steffan a sefydlodd adolygiad Browne yn 2009.
2. Fod y llywodraeth Doriaidd a Democraidaidd Rhyddfrydol wedi gostwng y gyllideb adnoddau addysg uwch o £7.1 biliwn i £4.2 biliwn - gostyngiad o 40% neu £2.9 biliwn yn Lloegr - sydd â chanlyniad Barnett o ostyngiad oddeutu £200miliwn yng nghyllideb Cymru.
3. Fod y llywodraeth Doriaidd a Democraidaidd Rhyddfrydol wedi caniatáu i brifysgolion godi ffioedd dysgu o £9,000 mewn ymgais i gau'r bwch yn y gostyngiad cyllidebol a hyd yma, fod dros 50% o sefydliadau addysg uwch ledled y DG wedi cadarnhau y byddant yn codi uchafswm y ffi dysgu.
4. Fod ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn gwella, gyda'r holl sefydliadau yng Nghymru yn awr â statws prifysgol.
5. Fod rhai cyrsiau sydd ar gael mewn sefydliadau yn Lloegr heb fod ar gael yng Nghymru, ond cred na ddylid llunio polisi ffioedd dysgu ar sail darparu ar gyfer lleiafrif sylweddol.
6. Pan orfododd Plaid Cymru lywodraeth Cymru i gyflwyno Grant Ffioedd Dysgu o ryw £2000, y cafwyd cynnydd o 7.2% yn nifer y myfyrwyr o Gymru a benderfynodd aros yng Nghymru i astudio.
7. Fod 89% o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn astudio yng Nghymru wedyn yn cael eu cyflogi yng Nghymru ar ôl eu hastudiaethau.
8. Fod hyn yn fwy ffafriol o lawer na'r 43% o fyfyrwyr â'u cartrefi yng Nghymru sy'n dychwelyd i Gymru ar ôl astudio yn Lloegr.

Cred y Gynhadledd:

1. Mai hawl, nid braint, yw addysg; y dylai'r blaid wastad anelu at ddarparu addysg uwch am ddim ond nad yw amgylchiadau economaidd yn caniatáu hynny ar hyn o bryd.
2. Pryd bynnag y bydd ffioedd dysgu yn codi yn Lloegr, mai mater o amser yn unig ydyw cyn i lywodraeth Cymru wneud yr un fath wrth i'r bwch cyllido ledi.
3. Nad yw'r trefniant presennol lle mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal i ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru waeth lle yn y DG maent yn astudio yn gynaliadwy, ac y gall polisi Llywodraeth Cymru yn hawdd newid oherwydd hyn.
4. Fod y trefniant hwn yn gweld Llywodraeth Cymru yn cyllido economi Lloegr ac nad yw cangen Cymru o Lafur Llundain ddim ond yn arddel y polisi hwn fel brwydr yn erbyn y Toriaid yn hytrach na sefyll cornel Cymru pan oedd Llafur mewn grym yn Llundain.
5. Fod cyllido myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i astudio y tu allan i Gymru yn cyfrannu at 'ddylifiad dawn' deallusol a diwylliannol o Gymru.
6. Fod y 'cymhelliant' a roddwyd i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i astudio yng Nghymru, ar ffurf y grant ffioedd dysgu, wedi cael effaith gadarnhaol ar addysg uwch ac ar gadw nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yng Nghymru.

SUPPORTING WELSH STUDENTS

(Swansea West, Swansea East, Gower, Cymru X)

Conference notes:

1. The people of Wales will never forget that it was a Labour government which introduced tuition fees in higher education and that the previous Labour government in Westminster established the Browne review in 2009.
2. That the Tory and Lib Dem Government has reduced the higher education resource budget from £7.1 billion to £4.2 billion – a 40% or £2.9 billion reduction in England – which sees a Barnett consequential of an approximate £200million reduction in the Welsh budget.
3. The Tory and Lib Dem government has allowed universities to charge tuition fees of £9,000 in an attempt to close the gap in budget reduction and that to date, over 50% of higher education institutions throughout the UK have confirmed they will charge the maximum tuition fee.
4. That the quality of higher education in Wales is improving with all institutions in Wales now having University status.
5. That some courses available in English institutions are not available in Wales, but believes tuition fee policy should not be made on the basis of catering for a significant minority.
6. That when Plaid Cymru forced the Welsh government to introduce a Tuition Fees Grant of approx. £2000, there was a 7.2% increase in the number of Welsh domiciled students deciding to stay in Wales to study.
7. That 89% of Welsh domiciled students who study in Wales are later employed in Wales after their studies.
8. That this is much more favourable than the 43% of Welsh domiciled students who return to Wales after studying in England.

Conference believes:

1. That education is a right and not a privilege; that the party should always aim to provide free higher education but that economic circumstances do not allow that at present.
2. Whenever tuition fees rise in England, it is only a matter of time before the Welsh government follows suit as funding gap grows.
3. That the current arrangement in which the Welsh Government subsidises tuition fees of Welsh domiciled students irrespective of where in the UK they study is unsustainable, and that there may well be a change in Welsh Government policy because of this.
4. This arrangement sees the Welsh Government funding the economy of England and that the Wales branch of London Labour are only pursuing this policy as a fight against the Tories instead of standing up for Wales when Labour were in power in London.
5. The funding of Welsh domiciled students to study outside of Wales is contributing to a cultural and brain 'drain' from Wales.
6. The 'incentive' given to Welsh domiciled students to study in Wales, in the form of the tuition fee grant, had a positive impact on higher education and maintaining the number of Welsh domiciled students in Wales.

Geilw'r Gynhadledd:

1. Am ail-gyflwyno Grant Ffioedd Myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd yn astudio yng Nghymru.
2. Ar Aelodau Cynulliad y Blaid i fynd ati i ymgyrchu dros hyn yn y Cynulliad.
3. Ar holl gynrychiolwyr etholedig y Blaid ar bob lefel i barhau i gefnogi dileu ffioedd dysgu.
4. Am adolygiad llawn o'n polisi addysg uwch sydd yn ymgorffori grant ffioedd dysgu ac asesu amrywiaeth eang o ddewisiadau cyllido addas i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n penderfynu astudio y tu allan i Gymru.

Gwelliant 1 (Cangen Llundain)

Ychwaneger wedi pwynt 4 yn adran Geilw'r Gynhadledd:

5. Yn ychwanegol, adolygiad i rôl prifysgolion Cymru, gan gynnwys eu hyfywedd yn y tymor hir o ran eu maint, ansawdd eu dysgu a'i gymhwyso yng Nghymru, eu perthynas â noddwyr masnachol a phartneriaid, yr egwyddorion fydd yn sail i'w cyllido yn y tymor hir, faint o lefydd prifysgol fydd ar gael yng Nghymru i'r myfyrwyr Cymreig hynny sydd am astudio yma, a gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y farchnad lafur yng Nghymru ac addysg uwch i ymdrin ag anghenion sgiliau economi Cymru wrth iddi ddatblygu dros y degawdau i ddod."

Gwelliant 2 (Grŵp y Cynulliad Cenedlaethol)

Ar ôl 'Geilw'r Gynhadledd: dileu pwyntiau 1 a 2.

15.40 Jill Evans ASE, Llywydd Plaid Cymru - Araith

15.55 GWOBR CYFRANIAD ARBENNIG

16.20 Rhuanedd Richards, Prif Weithredwr - Araith Gloi

16.30 CYFARFODYDD YMYLLOL

Conference calls:

1. For the reintroduction of a Tuition Fee Grant for Welsh domiciled students who study in Wales.
2. On the party's Assembly Members to actively campaign for this in the Assembly.
3. On all elected representatives of the party, at every level, to continue to support the abolition of tuition fees.
4. For a full review of our higher education policy which incorporates a tuition fee grant and assesses a wide range of sustainable funding options for Welsh domiciled students who decide to study outside of Wales.

Amendment 1 (London Branch)

Add after point 4 in the section Conference calls:

5. In addition, a review into the role of Welsh universities, including their long term viability in respect of their size, the quality of their teaching, the quality of their research and its application within Wales, their relationship with commercial sponsors and partners, the principles upon which their long term funding will be based, the availability of university places in Wales for those Welsh students wishing to study here, and a better understanding of the link between the labour market in Wales and Higher Education to address the skills needs of the Welsh economy as it develops over the coming decades."

Amendment 2 (National Assembly Group)

After Conference calls: delete points 1 and 2.

15.40 Jill Evans MEP, Plaid Cymru President - Speech

15.55 OUTSTANDING CONTRIBUTION AWARDS

16.20 Rhuanedd Richards, Chief Executive - Speech

16.30 FRINGE MEETINGS

EWROP Y POBLOEDD, EIN EWROP NI, EWROP WELL

Mae EFA, Cynghrair Rydd Ewrop, yn blaid wleidyddol Ewropeaidd sydd yn cynnwys 40 o bleidiau blaengar, rhanbarthol, hunan-reolaethol ac an-nibynnol yn yr Undeb Ewropeaidd. Yr un peth sy'n uno'r pleidiau hyn yw eu bod oll yn cytuno ar **hawl pobloedd i hunan - reolaeth**.

Mae amrywiaeth pleidiau EFA o ran maint, rhaglen, cefnogaeth etholiadol, strategaeth gwleidyddol, ac ati yn ased pwysig ac yn adlewyrchiad clir o arwydd-dair yr UE: 'Undod mewn amrywiaeth'.

Mae athroniaeth EFA yn seiliedig ar yr egwyddor hon a fel sydd wedi bod yn wir yn y gorffennol, mi fydd EFA bob amser yn amddiffyn ac hyrwyddo amrywiaeth Ewropeaidd fel y conglfaen ar gyfer Ewrop gwell.

Mae EFA yn anelu at wella yr Ewrop sydd ohoni heddiw gan nad yw'n ymateb i anghenion a gofynion ei phobloedd. Dim ond o safbwynt cyfraith a rhyddid i'r cenedloedd a phobloedd Ewrop y gall Ewrop amrywiol unedig ddod i fodolaeth.

Mae EFA yn ymdrechu dros Ewrop y Pobloedd.

Rydym yn argyhoeddi felly, dros Ewrop well, mae angen:

- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwledydd datganoledig, yn ogystal â rhwng y rhain a'r UE, er mwyn rhoi eu problemau a'u gofynion ar yr agenda Ewropeaidd;
 - Diwygio strwythur yr UE gan fynd i'r afael â'r ddadl sydd i ddod ar ehangu-mewnol a'i weithrediad;
 - Cryfhau democratiaeth Ewropeaidd a'r prosesau gwneud penderfyniadau lleol, gan roi ar waith yr hawl i hunanbenderfyniad a derbyn a gweithredu ewyllys rhydd pobloedd Ewrop;
 - Diogelu a dathlu treftadaeth ieithyddol a diwylliannol ym mhob cenedl Ewropeaidd drwy roi iddynt statws swyddogol.
- Ein Ewrop ni, Ewrop y pobloedd, dros Ewrop well.

Grwp EFA yn Senedd Ewrop:

Mae grwp Seneddol EFA yn cynnwys ASE'au o Gymru (Plaid Cymru), Alban (SNP), Fflandrys (N-VA), Cataluny (Esquerra Republicana de Catalunya), Corsica (Partitu de a Nazione Corsa) a Latvia (PCTVL).

Jill Evans ASE Plaid Cymru yw llywydd grwp EFA yn Senedd Ewrop. Is-Lywyddion y grwp EFA yn Senedd Ewrop y **Ian Hudghton ASE (SNP) a Frieda Brepoels ASE (NVA).**

Ffurfiwyd y grwp yn 1999 a daw ynghyd ASE'au o genedloedd di-wladwriaethol a rhanbarthau hanesyddol a lleiafrifol. Mae EFA yn eistedd gyda grwp seneddol y Gwyrddiaid yn Senedd Ewrop, gyda'n gilydd, ni yw pedwerydd grwp mwyaf yn y Senedd Ewropeaidd gyda 56 o ASE'au.

EUROPE OF THE PEOPLES, OUR EUROPE, A BETTER EUROPE

EFA, the European Free Alliance, is a European Political Party consisting of 40 progressive nationalist, regionalist, autonomist and independentist parties in the European Union. The one thing that unites these parties is that they all subscribe to **the right of peoples to self-determination**.

The diversity of the EFA parties in terms of size, programme, electoral support, political strategy, etc. is an important asset and a clear reflection of the motto of the EU: 'Unity in diversity'.

The philosophy of EFA is based on this very principle and, as it has been the case in the past, EFA will always defend and promote European diversity as the cornerstone for a better Europe.

EFA aims at improving the Europe of today because it doesn't respond to the needs and demands of its peoples. It is only from a perspective of law and freedom for the nations and peoples of Europe that a diversely unified Europe can come into being. **EFA strives for a Europe of the Peoples.**

In this line, it is our conviction that in order to reach a better Europe, our Europe, the Europe of the peoples, it is necessary to:

- Strengthen the relations between devolved nations, as well as between these and the EU, in order to put their problems and demands on the European agenda;
 - Reform the EU structure by tackling the upcoming debate on internal-enlargement and its implementation;
 - Strengthen European democracy and local decision making processes, putting into practice the right to self determination and accepting and implementing the free will of the peoples of Europe.
 - Safeguard and celebrate the linguistic and cultural heritage of every European nation by giving them all an official status.
- Our Europe, the Europe of the peoples, is a better Europe.

EFA Group in the European Parliament:

EFA's Parliamentary group includes MEPs from Wales (Plaid Cymru), Scotland (Scottish National Party), Flanders (N-VA), Catalunya (Esquerra Republicana de Catalunya), Corsica (Partitu de a Nazione Corsa) and Latvia (For Human Rights in United Latvia).

Plaid Cymru MEP **Jill Evans** is the **president of EFA Group in the European Parliament**. Vice-presidents of EFA Group in the European Parliament are MEP **Ian Hudghton (SNP)** and MEP **Frieda Brepoels (N-VA)**.

The EFA group was formed in 1999 and draws together MEPs from Stateless Nations and historic regions and minorities. In the European Parliament the EFA sits in common parliamentary group with the Greens, forming the 4th biggest group in the European Parliament with 56 MEPs in total.

From left to right:
Alyn Smith (SNP), Tatyana Zdanoka (FHRUL),
Oriol Junqueras (ERC), Ian Hudghton (SNP),
François Alfonsi (PNC), Jill Evans (Plaid) and
Frieda Brepoels (N-VA).





Helpu Plaid ledaenu'r gair ar-lein!

Beth yw'r codau QR hyn a beth maen nhw'n ei wneud?

Mae botymau Facebook *Hoffi* yn awr ym mhob man ar y wê dim ond un clic ac mae'n diweddarau eich ffrindiau a cysylltiadau o'r hyn yr ydych yn ei hoffi, beth rydych newydd ei ddarllen neu beth ydych yn ei wneud. Fel arfer dim ond proses ar-lein yw hwn, ond mae Plaid Cymru ar fin ei wneud yn fwy diddorol!

Mae codau QR fel yr un uchod yn ymddangos ym mhob man mewn marchnata eleni, ac mae Plaid yn anelu i fod ar flaen y gad trwy ddefnyddio'r dull newydd hwn i'n helpu i hyrwyddo y Blaid ac estyn allan i bobl ar rwydweithiau cymdeithasol fel facebook.

Sganiwch y côd QR hwn ac eraill o gwmpas y gynhadledd gyda'ch ffôn clyfar i hoffi pethau ar facebook, i gael rhagor o wybodaeth am y ddiwyddiad a llawer mwy!

lawrlwytha darlennydd QR ar gyfer dy ffôn clyfar
www.plaidcymru.org/QR
ac yna pwyntia dy ffôn at y cod i gymryd rhan

Helping Plaid spread the word online! What are the these QR codes and what do they do?

Facebook *like* buttons are now everywhere on the Web —just one click and it updates your friends and contacts what you like, what you've just read, or what you're doing. Normally this is just an online process, but Plaid is about to make it more interesting!

QR codes such as the one above are popping up everywhere in marketing this year, and Plaid aims to be ahead of the curve by using this new method to help us promote the party and reach out to people on social networks like facebook.

Scan this QR code and others around #plaidconf with your smartphone to *Like* things on facebook, to get more information on an event and much more!

go to **www.plaidcymru.org/QR**
to download the QR reader app and then just point your phone at the code

Cefndir i Venue Cymru, Llandudno

Wedi'i leoli ar benrhyn wedi'i amgylchynu gan ddŵr ar dair ochr ac yng nghanol ysblander llethrau mynyddoedd Eryri, mae tref glan môr Fictoraidd Llandudno yn cynnig popeth y gallai ymwelydd neu gynrychiolydd Cynhadledd ei angen. Mae Venue Cymru mewn safle arbennig ar lan y dŵr yn Llandudno gyda golygfeydd trawiadol o'r môr. Mae Venue Cymru yn un o'r lleoliadau gorau ar gyfer cynadleddau wedi'u rheoli'n broffesiynol.

Mae Llandudno yng nghanol arfordir y gogledd, ac y mae gwasanaeth trafndiaeth dda ar gael i gyrraedd Venue Cymru. Mae ffordd ddeuol yr A55 yn cysylltu'r dref â'r M56 a'r M53 ac mae cysylltiadau bus a thrên da. Ewch i **http://conference.venuecymru.co.uk/home.php?/Area_and_Travel_Information/Travel_Planning** am fanylion trafndiaeth gyhoeddus.

Mae Venue Cymru yn cynnwys cyfleusterau cynhadledd modern i gynrychiolwyr rhwng 5 a 5000. Mae amrywiaeth eang o ystafelloedd a gwasanaethau ar gael i ddigwyddiadau a chyfarfodydd o bob maint.

A background to Venue Cymru, Llandudno

Perched on a peninsula surrounded on three sides by water and set beneath the glorious foothills of Snowdonia, the unspoilt Victorian seaside town of Llandudno offers everything a visitor and Conference delegate could wish for.

Venue Cymru is situated in a spectacular position on Llandudno's attractive waterfront occupying spectacular views out to sea. Venue Cymru is one of the finest locations for professionally managed conferences.

Located in Llandudno, in the centre of the North Wales coast, Venue Cymru is well served by all transportation methods. The A55 dual carriageway connects the town to both the M56 and M53 with good bus and train connections. Please check **http://conference.venuecymru.co.uk/home.php?/Area_and_Travel_Information/Travel_Planning** for details of public transport.

Venue Cymru has modern, purpose-built conference facilities for anything from 5 to 5000 delegates. It hosts a full range of rooms and services available for events and meetings of all sizes.

Nodiadau / Notes

Prysg

post@prysg.com
029 2066 8081



Gwasg Morgannwg

Argraffwyr Plaid Cymru ers 1976

~~~~~

**Pob math o argraffwaith  
yn cynnwys tafleni etholiadol, posterï, cylchlythyron**

~~~~~

Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd, Castell-nedd. SA10 7DR

Ffôn: 01792 815152

Ebost: gwasgmorgannwg@gmail.com

Jill Evans

ASE
MEP



Jill Evans ASEP MEP
45 Gelligaled Road
Ystrad
Rhondda
CF41 7RQ

01443 441395
jill.evans@europarl.europa.eu

jillevans.net
[youtube.com/jillevansasemep](https://www.youtube.com/jillevansasemep)
twitter.com/jillevansmep
[flickr.com/jillevansasemep](https://www.flickr.com/jillevansasemep)



The Greens | EFA
in the European Parliament



Plaid